Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 21ain Tachwedd, 2017 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Mair Rowlands | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 HYDREF | | | 3 - 9 |
| 6 | DOGFEN YMGYNGHOROL AR GYFER BLAENORIAETHAU ARFAETHEDIG AR GYFER CYNLLUN Y CYNGOR 2018-2023 | Cyng. Dyfrig Siecyn | Dewi Wyn Jones | 10 - 41 |
| 7 | UCHAFU'R CYFLENWAD O DAI CYMDEITHASOL A FFORDDIADWY DRWY GRYFHAU CAPASITI STRATEGOL | Cyng. Craig ab Iago | Arwel Wyn Owen | 42 - 45 |
| 8 | CYLLIDEB REFENIW 2017/18 ADOLYGIAD AIL CHWARTER | Cyng. Peredur Jenkins | Dafydd Edwards | 46 - 63 |
| 9 | RHAGLEN CYFALAF 2017/18 ADOLYGIAD YR AIL CHWARTER | Cyng. Peredur Jenkins | Dafydd Edwards | 64 - 68 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 24 HYDREF 2017**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Mair Rowlands, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas a Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol)

Eitem 3: Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Llyr Beaumont Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd).
Eitem 6: Catrin Thomas (Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol), Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned)
Eitem 7 a 8: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg (Dros Dro)), Hedd Tomos (Rheolwr Rhaglen Moderneiddio Addysg), Debbie Anne Jones (Swyddog Addysg Ardal (Dros Dro))
Eitem 9: Gareth Jones (UWch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganwyd buddiant gan y Cynghorwyr canlynol:
Cyng. Ioan Thomas ar gyfer eitem 3 gan ei fod yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth yr Harbwr.
Cyng. W. Gareth Roberts ar gyfer eitem 6 gan fod ei fab yng nghyfraith yn gweithio i'r Gwasanaeth Ieuenctid.
Cyng. Dilwyn Morgan ar gyfer eitem 7 gan fod ei wŷr yn mynychu Ysgol Bro Tegid.
Roeddent i gyd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a bu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer yr eitemau.

**3. MATERION BRYS**

Roedd un eitem brys i'w drafod.

**GORSAF REILFFORDD UCHELDIR CYMRU, CAERNARFON**

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNIAD**

1. Yn ddarostyngedig i 2 a 3 isod awdurdodi'r Uwch Reolwr eiddo mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid i ildio'r gwaharddiad a chyfyngiadau ar werthu bwyd a man werthu yn Les Safle Gorsaf Rheilffordd Ucheldir Cymru, Caernarfon.
2. Fod y premiwm llawn i'w gyfrifo yn unol â thelerau'r Les yn daladwy gan y cwmni am y caniatâd.
3. Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid i gytuno cynllun talu dros gyfnod rhesymol gyda'r tenant petai angen.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cwmni Rheilffordd Ucheldir Cymru yn dal llecyn o dir ar ffordd Santes Helen, Caernarfon ers 1999, ar brydles gan y Cyngor am gyfnod o 1,000 o flynyddoedd. Roedd y brydles wedi ei roi er mwyn caniatáu i'r cwmni ddatblygu rheilffordd o Gaernarfon i Dinas, gan ddefnyddio'r llecyn i greu'r orsaf yng Nghaernarfon.

Mae cymal penodol yn y brydles yn mynnu nad oes hawl gan y cwmni i werthu bwyd a diod ar y safle heb gael caniatâd penodol gan y Cyngor ac y byddai taliad pellach yn daladwy gan y tenant os fyddai'r Cyngor yn fodlon rhoi caniatâd o'r fath. Mae mecanwaith manwl yn y brydles yn amlinellu sut y byddai'r taliad yn cael ei gyfrifo.

Mae cais wedi dod gan y cwmni yn gofyn i'r Cyngor i beidio â hawlio'r ffi sy'n ddyledus o dan y brydles am ganiatâd o'r fath ac felly hepgor y swm unwaith ac am byth.

Ystyriwyd y mater yma yn fater brys oherwydd gofynion amserlennu prosiect ac yn unol a pharagraff 7.25.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a gyda chaniatâd Cadeirydd y Cyngor mae'r penderfyniad yn cael ei eithrio o'r drefn galw i mewn ac yn dod i rym ar dyddiad y cyfarfod a'r penderfyniad

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALWYD AR MEDI 19 A HYDREF 3

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 19 Mec a 3 Hydref, 2017, fel rhai cywir.

## 6. AIL FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNWYD**

Derbyniwyd yr adroddiad ac yn awdurdodi Pennaeth Economi a Chymuned i gynnal ymgynghoriad ar ffurf y Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol, gan adnabod Opsiwn 3 fel yr opsiwn a ffafrir.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad a nodwyd eu bod gofyn am ganiatâd i ymgynghori ar y model sy'n cael ei ffafrio. Pwysleisiwyd ers Her Gwynedd fod yr adran wedi bod yn ymgysylltu a plant a phobl ifanc. Esboniwyd mai opsiwn tri sy'n cael ei ffafrio gan y bobl ifanc gan ei fod yn rhoi darpariaeth deg i bob person ifanc ar draws y sir.

Nodwyd fod cau clybiau yn digwydd ar hyn o bryd ac mae hyn o ganlyniad i broblemau recriwtio staff. Bydd opsiwn tri yn rhoi cyfle i greu swyddi ond rhai llawn amser a fydd yn rhoi cyfle i'r staff ddatblygu'r gwasanaeth.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- O drafodaeth a Phobl Ifanc nodwyd nad oedd y gwasanaeth yn ymateb i anghenion y bobl ifanc. Nodwyd fod angen i'r gweithiwr ieuenctid fod ar gael yn ystod y dydd. Pwysleisiwyd fod angen datblygu y defnydd o dechnoleg.
- Holwyd beth fydd rôl y trydydd sector yn ffurf y gwasanaeth newydd sy'n mynd i ymgynghoriaeth - nodwyd mai'r realiti yw nad oes cymaint arian a bod angen bod yn deg a'r mudiadau sy'n derbyn a ddim yn derbyn arian. Mae trafodaethau wedi bod gyda'r mudiadau trydydd sector. Yn ychwanegol nodwyd fod blaenoriaethau yn mynd i fod ar anghenion y bobl ifanc ac os bydd opsiwn tri yn cael ei dderbyn yn dilyn ymgynghoriad, y bydd y trydydd sector yn cael ei gomisiynu i drafod meysydd penodol o'r gwasanaeth. Bydd hyn yn sicrhau fod arbenigedd yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyfarch blaenoriaethau'r bobl ifanc.
- Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig fod pob person ifanc yn y sir yn cael yr un gwasanaeth ble bynnag y maent yn byw.

Trafodwyd yr ymgynghoriad sydd am fod ar lein ond nodwyd yn glir na fydd neb yn cael ei gau allan a bydd ymgynghoriadau yn cael ei gynnal mewn dulliau gwahanol er mwyn sicrhau fod pawb yn cael y cyfle i leisio barn

## 7. DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG YN NALGYLCH Y BALA

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

I gynnal ymgynghoriad statudol yn unol ar Adran 48 Deddf Safonau Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Y Berwyn ar y model a ffafrifir, sef cynnig i gau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol y Berwyn yn nhref y Bala, a sefydlu Campws Dysgu 3-19, cyfrwng Cymraeg, statws Cymunedol ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn weithredol o fis Medi 2019.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ar 27 Mehefin 2017 y bu i'r Cabinet benderfynu tynnu'r cais i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC Eglwys yng Nghymru yn ei ôl, a gofyn am adroddiad pellach i gyflwyno model amgen ar gyfer ymgynghoriad sy'n cyfarch a chyd-fynd a gofynion yr Achos Busnes. Drwy ddilyn y camau statudol y cam nesaf yw'r ymgynghoriaeth.

Mae rhag-ymgynghoriaeth wedi ei gynnal gyda'r Eglwys yng Nghymru a nodwyd mai anghenion disgyblion yw eu blaenoriaeth - o ganlyniad byddant yn gweithio gyda'r ysgol a'r gymuned i ddod ar mater i derfyn.

Nodwyd fod amserlen agor yr ysgol wedi llithro er y bydd y gwaith adeiladu yn gorffen ar amser. Bydd blwyddyn o gyfnod pontio ble fydd modd i'r ysgolion wneud defnydd o'r adeilad newydd cyn iddo agor ym mis Medi 2019.

Sylwadau o'r drafodaeth

– Nodwyd fod yr ysgolion yn frwdfrydig am y flwyddyn bontio ac yn edrych ymlaen at ddefnyddio'r adeilad. Diolchwyd i staff a'r disgyblion am sut maent wedi delio gyda'r mater

## 8. STRATEGAETH IAITH YSGOLION UWCHRADD GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

I fabwysiadu Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd fel dogfen sydd yn gosod cyfeiriad strategol a disgwyliadau clir i holl ysgolion uwchradd y sir i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

I'r Cynghorwyr Mair Rowlands a Gareth Thomas ysgrifennu at yr Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ddarparu'r £120,000 (£40,000 y flwyddyn am dair blynedd 2018/19 – 2020/21) er mwyn ariannu swydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd i arwain ar gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg. Os na fydd y Llywodraeth yn fodlon ariannu, awdurdodi'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i geisio darganfod dulliau eraill o gael yr adnodd amgenrheidiol.

**TRAFODAETH**

Mae Siarter Iaith Gynradd y Cyngor bellach wedi ei ledaenu dros Gymru gyfan ac mae hwn y cam nesaf i ddatblygu a symud i weithio gyda'r uwchradd. Nodwyd fod y strategaeth edrych ar y defnydd o Gymraeg o fewn Addysg a'r tu allan i'r Ysgol.

Esboniwyd fod y Siarter wedi ei rannu i bedwar prif faes - Cymraeg Iaith Gyntaf, Cymraeg Ail Iaith, Y Gymraeg fel Cyfrwng a Defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg. Pwysleisiwyd fod y gwaith wedi ei ddatblygu o'r gwaelod i fyny drwy drafod gyda phobl ifanc, athrawon a phenaethiaid. Bu i ddigwyddiad Cymhadledd gael ei gynnal yn ystod yr wythnos a oedd yn gynhadledd i ddisgyblion ysgolion uwchradd Gwynedd er mwyn trafod y siarter.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Pwysleisiwyd fod y Strategaeth yn holl bwysig a'i bod yn bwysig adeiladu ar waith da Siarter Iaith Cynradd.

Trafodwyd ariannu'r Swydd a nodwyd ei bod yn syniad cysylltu â'r Ysgrifenyddion perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ddarparu £120,000 i ariannu'r swydd.

**9. CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL I DDARPARU A CHEFNOGI PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AR GYFER GWYNEDD A CHYNGOR SIR YNYS MON**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Awdurdodi Pennaeth yr Adran Amgylchedd a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi a gweithredu Cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn ailsefydlu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ffurfiol.

Dirprwyo swyddogaethau'r Cabinet yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn rhan 6 yr Adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Chyngor Môn.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan esbonio ar 7 Mawrth 2017 bu i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnig i barhau i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda Chyngor Sir Ynys Môn sydd wedi ei sefydlu yn 2011. Ar 31 Gorffennaf daeth rôl y Pwyllgor i ben pan fabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Oherwydd bod y cytundeb a bod trefniant cydweithio yn parhau mae angen ailsefydlu rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Pwysleisiwyd fod tebygrwydd yn y cytundeb a'r swyddogaethau a'r ctyundeb diwethaf ond fod diwygiad o'r cynllun am ddigwydd pob pedair blynedd. Nodwyd fod newid i'r aelodaeth gan y bydd saith aelod o bob sir yn rhan o'r cynllun ond ni fydd dirprwy yn cael ei apwyntio.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:
- Esboniwyd fod aelodaeth newydd i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd wedi eu penodi ym mis Mai 2017, yn dilyn yr Etholiad

## 10. CAIS Y FARGEN TWF AR GYFER GOGLEDD CYMRU - DIWEDDARIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNWYD**

- Nodwyd a chefnogwyd cynnydd datblygiad cais y Fargen Twf ar gyfer y rhanbarth.
- Cefnogwyd, mewn egwyddor, y model llywodraethu a ffefrir o Gydbwyllgor Statudol ar gyfer datblygiad pellach gydag adroddiad llawn ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl, wedi ei gefnogi gan Gytundeb Rhyng-Awdurdod, i ddilyn nes ymlaen yn y flwyddyn.
- Awdurdodi yr Arweinydd, yn y cyfamser, i fod yn aelod Gwynedd o'r Cydbwyllgor Cysgodol
- Bod yr Arweinydd, fel un o Arweinwyr y chwe Chyngor a gynrychiolir ar Cydbwyllgor Cysgodol, yn cael ei awdurdodi i ddechrau trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn a maint ac amlinelliad cynnwys cais y Fargen Twf, gan nodi na fydd unrhyw ymrwymiadau ariannol nac o fath arall yn cael eu cytuno yng nghamau cyntaf y trafodaethau.
- Dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr wneud cyfraniad ariannol cychwynnol o hyd at £50,000 yn 2017/18 ar gyfer paratoi cais am arian o'r Cytundeb Twf
- Ail adrodd dymuniad y Cyngor hwn hefyd yn disgwyl sicrwydd o ran sefydlu Swyddfa Raglen a cael dealltwriaeth o'r strwythur a dull ariannu'r Swyddfa honno pan yn cymeradwyo unrhyw gyfansoddiad / cytundeb.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr arddodiad gan nodi fod y chwe sir y gogledd wedi cytuno i ddatblygu'r strategaeth i fod yn gais ar gyfer y 'Fargen Twf' i sicrhau buddsoddiad ariannol a throsglwyddo pwerau Llywodraethu i'r rhanbarth.

Esboniwyd fod dwy elfen i'r Fargen Twf sef buddsoddiad ariannol ar gyfer prosiectau sy'n arwain at dwf economaidd a datganoli grymoedd neu bwerau o'r Llywodraeth Ganolog er mwyn gwneud penderfyniadau ar lefel Rhanbarthol. Nodwyd fod camau wedi eu cymryd a bod seiliau cyfreithiol yn eu lle. Pwysleisiwyd fod angen sicrhau fod y buddsoddiad sylweddol a fydd yn dod o ganlyniad i'r 'Fargen Twf' yn cael ei rannu yn deg ar hyd y siroedd.

Nodwyd y gobeithir y bydd popeth yn ei le erbyn mis Ebrill.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod pwyslais ar Ogledd Cymru a holwyd os bydd gwaith yn cael ei wneud i weithio gyda Cheredigion a Powys yn benodol wrth edrych ar drafnidiaeth. Esboniwyd fod gwaith am wneud a bod potensial i weithio gyda'r canolbarth ond fod gwaith i'w wneud.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 14:40

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 Tachwedd 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dewi W. Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679233** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Dogfen Ymgynghorol ar y blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer Cynllun y Cyngor 2018-2023** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i'r ddogfen ymgynghorol ar flaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 a chytundeb i gynnal cyfnod ymgynghori o 6 wythnos ar y ddogfen o'r 27ain o Dachwedd 2017.

1.2. Cytundeb i'r trefniadau a amlinellir er mwyn adnabod datrysiadau ac unrhyw anghenion adnoddau sydd ynghlwm â'r blaenoriaethau a amlinellir gan adrodd yn ôl ar y canfyddiadau i'r Cabinet ym mis Ionawr.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys a diwyg dogfen ymgynghorol ar flaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2018-23 cyn gallu symud ymlaen i'r camau nesaf.

**3. CYFLWYNIAD**

3.1. Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 cynhaliwyd cyfres o 8 cyfarfod ardal yn ystod mis Gorffennaf lle gwahoddwyd holl Aelodau Etholedig y Cyngor i fynychu er mwyn amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw o fewn yr ardaloedd hynny. Yn ogystal, bu i aelodau'r Pwyllgorau Craffu adnabod materion yr oeddent hwy o'r farn y dylid eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor i'r dyfodol.

3.2. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn fe gynhaliwyd 4 sesiwn gweithdy pellach yn ystod mis Medi yng Nghaernarfon, Penrhyndeudraeth, Dolgellau a Phwllheli. Bwriad y gweithdai hyn oedd rhoi cyfle pellach i'r Aelodau gynnig sylwadau ar y blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod fesul ardal.

3.3. Roedd hefyd yn gyfle iddynt gynnig sylwadau ar faterion sydd wedi eu cynnwys o fewn Cynllun presennol y Cyngor, y materion amlygwyd gan y Pwyllgorau Craffu ac i adnabod unrhyw faterion sydd ar goll ac angen sylw yn y Cynllun i'r dyfodol.

3.4. Mae'r deunydd o'r sesiynau ymgynghori hyn yn llunio'r blaenoriaethau o fewn y Ddogfen Ymgynghorol ar flaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2018-23. Ceir copi o'r ddogfen yn **Atodiad 1**.

3.5. Fe welir fod y blaenoriaethau wedi eu rhannu ar sail Blaenoriaethau Sirol a Lleol.

3.6. Mae mwyafrif y Blaenoriaethau Sirol yn seiliedig ar brosiectau sydd eisoes wedi eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor 2017-18 ac fe'u rhestrir o dan y themâu sy'n ymddangos o fewn y Cynllun hwnnw yn y ddogfen hon.

3.7. Mae'r Blaenoriaethau Lleol wedi eu rhannu'n 10 ardal, sy'n seiliedig ar yr 8 Ardal Llesiant sydd eisoes wedi eu hadnabod fel rhan o'r Cynllun Llesiant. Mae Ardal Bangor wedi ei rhannu'n ddwy i Bangor a Dyffryn Ogwen ac Ardal Caernarfon wedi ei rhannu i Gaernarfon a Dyffryn Nantlle oherwydd maint y boblogaeth ac amrywiaeth yr ardaloedd.

## 4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. *Blaenoriaethau Sirol* – Er mwyn gallu gweithredu ac ymateb i rai o'r blaenoriaethau hyn bydd angen adnoddau ychwanegol. Er bod rhywfaint o waith wedi ei wneud i adnabod anghenion bydd angen cynnal gwaith pellach hefo'r Adrannau er mwyn adnabod y gofynion adnoddau tebygol. Awgrymir bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr yn amlinellu'r holl ofynion adnoddau sydd ynghlwm a'r blaenoriaethau fel y gellir ystyried a oes modd gweithredu ai peidio.

4.2. *Blaenoriaethau Lleol* - Bydd angen gwaith pellach er mwyn adnabod datrysiadau posibl a gofynion adnoddau ar gyfer y materion sydd wedi eu hadnabod ar lefel lleol. Awgrymir eu bod yn cael eu cynnwys fel blaenoriaeth yn y ddogfen hon ond bod canfyddiadau'r gwaith i adnabod datrysiadau posibl a gofynion adnoddau yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ystod mis Ionawr.

4.3. *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)(2015)*- Mae'r Ddeddf yn berthnasol i'r gwaith sydd ynghlwm a datblygu cynllun y Cyngor ac adolygu'r amcanion lleisant a bydd angen gwaith pellach wrth i'r gwaith symud ymlaen i ymgorfforí gofynion y Ddeddf a'r Arweiniad cysylltiedig

4.4. Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried asesiad effaith o safbwynt cydraddoldeb yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Atodir copi o'r asesiad fel **Atodiad 2.** Nid yw'r asesiad wedi canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. O fod yn cymeradwyo'r ddogfen byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol ac yn cychwyn ar gyfnod ymgynghori o 6 wythnos hyd ddechrau Ionawr. Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus byddwn yn targedu cyfraniad grwpiau penodol megis Grŵp Cyswllt Trydydd Sector a'r Grŵp Cydraddoldeb.

5.2. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori bydd gwaith yn mynd yn ei flaen i lunio Cynllun y Cyngor gan adrodd yn ôl i'r Cabinet ar y 13eg o Chwefror 2018 ar gyfer cymeradwyo'r Cynllun i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu ar y 1af o Fawrth 2018.

**6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

6.1. Fel y nodwyd eisoes mae holl Aelodau Etholedig y Cyngor wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn 2 sesiwn gweithdy er mwyn lleisio eu barn ar yr hyn ddylid eu cynnwys fel blaenoriaethau.

6.2. **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**
Mae ymgynhori ar amcanion gwella y Cyngor yn parhau yn ofyn statudol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r argymhelliad i ymgynghori yn seilieidg ar resymau ehangach na hyn. Gallaf gymeradwyo'r bwriad fel cam briodol yn y broses o gynhyrchu Cynllun y Cyngor.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**
Mae'r adroddiad yn ceisio adnabod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2018-23. Yn sgil penderfyniad ar y fersiwn ddrafft, mae bwriad i ofyn i adrannau'r Cyngor adnabod os gellid cyflawni'r blaenoriaethu o fewn eu hadnoddau cyfredol. Lle bydd yr adrannau angen cyllideb ychwanegol i weithredu'r blaenoriaethau, disgwylir iddynt gyflwyno ceisiadau buan am symiau penodol. Wedyn, bydd yn bosib i'r Cabinet flaenoriaethu'r prosiectau o fewn y cyfanswm arian fydd ar gael. Bydd raid i'r Cabinet ystyried y ceisiadau rheiny, a'u hasesu yn wyneb yr amgylchiadau ariannol heriol presennol, gan gofio bydd y blaenoriaethu yma'n cystadlu am adnodd ynghyd â nifer o faterion anorfod eraill.

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Dogfen Ymgynghorol ar flaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2018-2023

**Atodiad 2 –** Asesiad Cydraddoldeb

**Atodiad 1**

# Beth sy'n bwysig i chi?

# Adnabod Blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 - 2023

Gallwch gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn drwy gwblhau'r holiadur, naill ai ar-lein – ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori neu drwy gwblhau holiadur papur sydd ar gael yn eich llyfrgell leol neu swyddfeydd y Cyngor yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

**Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru**

# Cyflwyniad

Prif amcan Cyngor Gwynedd yw rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Os ydym am ddarparu'r gwasanaethau mwyaf addas o'r safon uchaf posib i'n trigolion yna mae angen i ni wybod yn union beth yw gwir anghenion pobl Gwynedd, a cheisio cyflawni hynny er gwaethaf y sefyllfa ariannol anodd yr ydym yn ei wynebu.

Mae angen cofio bod Cyngor Gwynedd, fel pob Cyngor arall, yn derbyn gostyngiadau parhaus yn yr arian a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill i dalu am ein gwasanaethau. Mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn heriol, ond rhaid i ni edrych a chynllunio ymlaen a phenderfynu ym mha feysydd y byddwn am ganolbwyntio ein hadnoddau prin - yn bobl ac arian.

Erbyn mis Mawrth 2018 mi fydd y Cyngor yn cyhoeddi *Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023*, sef dogfen gyhoeddus fydd yn dweud beth fydd ein blaenoriaethau a'n gwaith dydd i ddydd dros y cyfnod o 5 mlynedd. Ond, cyn penderfynu ar y Cynllun terfynol rydym am gyhoeddi'r holiadur hwn er mwyn casglu barn a gwybodaeth am y gwaith posib fydd angen i'r Cyngor ganolbwyntio arno. Rydym felly am ofyn i chi fel trigolion Gwynedd, neu bartneriaid sy'n gweithio hefo ni, beth sy'n bwysig i chi. **Y cwestiwn sylfaenol yw a allwn weithredu'r holl flaenoriaethau a nodir o fewn y ddogfen hon hefo'r adnoddau fydd ar gael? Byddwn yn ystyried hyn wrth benderfynu ar gynnwys *Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023*.**

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer llunio'r Cynllun mae'r Aelodau Etholedig eisoes wedi cael cyfle i flaenoriaethu'r materion y maen nhw'n credu sy'n bwysig yn lleol. Mae'r blaenoriaethau hynny wedi eu nodi yn yr Adran Blaenoriaethau Lleol.

Mae'r Adran Blaenoriaethau Sirol yn rhestru'r materion a flaenoriaethwyd gan yr Aelodau Etholedig ar lefel Sirol a lle mae dymuniad i wella.

Mae yna dalp mawr iawn o waith y Cyngor, serch hynny, sy'n ddyletswydd statudol ac yn orfodol i ni ei wneud, megis diogelu plant ac oedolion neu ddarparu addysg, ac felly bydd y gwaith hwn yn parhau. Bydd gwaith 'dydd i ddydd', megis casglu gwastraff, gwasanaeth cynllunio a darpariaeth llyfrgelloedd hefyd yn parhau. Yn ogystal, er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau i'n trigolion rydym yn edrych ar ffyrdd arloesol a gwahanol o ddarparu rhai gwasanaethau, gan edrych ar fodelau newydd ar gyfer darparu Cyfleusterau Hamdden a Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol. **Gan fod yr holl waith hwn eisoes ar y gweill nid ydym am ymgynghori arnynt ar hyn o bryd.**

Bwriad y ddogfen yma yw amlygu lle mae'r Cyngor eisiau gweithredu tu hwnt i'r gwaith sylfaenol yma a wneir o ddydd i ddydd neu ble 'rydym o'r farn bod angen rhoi mwy o flaenoriaeth i ryw faes neu'i gilydd.

Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a bydd gweithredu ar y blaenoriaethau o fewn y ddogfen hon yn cyfrannu at wella llesiant trigolion Gwynedd. Ar ôl cytuno ar ein blaenoriaethau terfynol, bydd dogfen *Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023* yn ymhelaethu ar ein hamcanion llesiant a sut y bydd ein gwaith yn cyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf.

Er mwyn i ni gael darlun llawn o anghenion ein trigolion rwy'n annog unrhyw unigolyn neu sefydliad neu gymuned sy'n derbyn gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd, neu'n bartner sy'n gweithio hefo ni, i gwblhau'r holiadur hwn. Bydd cyfle ar ddiwedd pob adran i chi gynnig sylwadau ar yr hyn sydd yma, neu i gynnig syniadau newydd.

Dim ond drwy glywed llais pobl Gwynedd y gallwn ddarparu'r hyn sydd ei angen arnoch heddiw ac i'r dyfodol. Gan ddiolch i chi o flaen llaw am eich sylwadau, ac edrychaf ymlaen at eu darllen.

Dyfrig Siencyn
Arweinydd Cyngor Gwynedd

# Rhoi fy marn

Gallwch gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn drwy gwblhau'r holiadur hwn, naill ai ar-lein – ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori, neu drwy gwblhau holiadur papur sydd ar gael yn eich llyfrgell leol neu swyddfeydd y Cyngor yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

Mae'r holiadur wedi ei rannu'n ddwy brif ran –

- Blaenoriaethau Sirol
- Blaenoriaethau Lleol

O fewn y rhain mae yna unedau gwahanol sy'n rhoi mwy o fanylder am faes gwaith neu ardal benodol. Bydd cyfle wedyn ar ddiwedd pob adran i chi roi eich sylwadau. Gallwch roi sylw ar yr hyn yr ydych wedi ei ddarllen neu i gynnig syniadau newydd.

## Blaenoriaethau Sirol

Er hwylustod mae'r rhain wedi eu rhannu yn unedau gwahanol. Mae'r blaenoriaethau sy'n cael eu disgrifio yma naill ai yn waith sydd eisoes ar y gweill neu yn ddatblygiadau newydd

Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
Tlodi, Economi, Tai
Cynllunio Ariannol
Gofal a Llesiant Cymunedol
Y Gymraeg

## Blaenoriaethau Lleol

I bwrpas y Cynllun hwn mae Gwynedd wedi ei rhannu'n 10 ardal fel y rhestrir isod, sy'n seiliedig ar yr 8 Ardal Llesiant sydd eisoes wedi eu hadnabod fel rhan o'r Cynllun Llesiant. Mae Ardal Bangor wedi ei rhannu'n ddwy i Fangor a Dyffryn Ogwen ac Ardal Caernarfon wedi ei rhannu i Gaernarfon a Dyffryn Nantlle oherwydd maint y boblogaeth ac amrywiaeth yr ardaloedd.

1. Ardal Bangor
2. Ardal Dyffryn Ogwen
3. Ardal Caernarfon
4. Ardal Dyffryn Nantlle
5. Ardal Llŷn
6. Ardal Porthmadog
7. Ardal Ffestiniog
8. Ardal Penllyn
9. Ardal Dolgellau
10. Ardal Tywyn

Rydym am wybod beth ydych chi'n ei gredu ydi'r materion pwysicaf sydd angen sylw yn yr ardaloedd unigol yma. Gallwch ganolbwyntio ar yr ardaloedd yr ydych yn byw neu'n gweithio ynddynt, ond byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ynghylch pam eich bod yn credu bod mater yn bwysig i chi.

Byddwn fel Cyngor wedyn yn ystyried ffyrdd y gallwn ymateb i'r materion sy'n codi fel rhan o'r broses o ddatblygu *Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023* .

Os oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol neu eisiau ymhelaethu ar atebion blaenorol, mae lle i wneud hynny ar ddiwedd yr holiadur. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ychwanegol am yr holiadur yma, yna cysylltwch gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Rhagor o wybodaeth:**

# Blaenoriaethau Sirol

Cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd:
Ffôn: 01766 771 000
E-bost: eichbarn@gwynedd.llyw.cymru

## Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

### Strategaeth Cefnogi Teuluoedd

Mae cynnig cefnogaeth a chymorth i blant a phobl ifanc sydd ei angen wedi bod yn flaenoriaeth i'r Cyngor erioed. Fodd bynnag, tra ein bod yn dda iawn am ddiogelu plant sydd angen eu diogelu 'rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn rhoi cymorth priodol a buan i'r rhai hynny sydd ei angen. Byddwn yn ail edrych ar ein trefniadau presennol yn y maes yma er mwyn gwneud mwy o beth sy'n gweithio i gyflawni anghenion plant a'u teuluoedd. Bydd cynnig cefnogaeth i rai teuluoedd cyn i faterion ddwysau yn hanfodol er mwyn helpu plant a theuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Byddwn yn sicrhau gweledigaeth glir gyda phartneriaid allweddol megis y Bwrdd Iechyd, ynghyd a'n cymunedau a'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant, bobl ifanc a theuluoedd hynny sydd angen ein cymorth.

### Rhiantu Corfforaethol

Y Cyngor sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles plant sydd mewn gofal, ac felly mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ymddwyn fel rhiant ar gyfer y plant hynny. Mae gennym Banel Rhiant Corfforaethol sydd eisoes wedi datblygu strategaeth er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i'r plant a phobl ifanc sydd o dan ein gofalaeth ac i dreiddio yn ddyfnach i rai materion fel, iechyd, lles emosiynol a sefydlogrwydd plant a phobl ifanc. Gyda'r cynnydd yn niferoedd y plant sydd yn ein gofal byddwn yn canolbwyntio yn arbennig ar sicrhau bod ein plant yn cael pob cyfle i lwyddo mewn bywyd.

Fel rhieni corfforaethol byddwn yn anelu i wella'r cyfleoedd ar gyfer ein plant ym mhob agwedd o'u bywydau. Drwy wrando a chanfod barn y plant sy'n ein gofal byddwn yn sicrhau bod y gefnogaeth sydd yn cael ei roi gennym yn cwrdd â'u hanghenion gan weithredu i gau unrhyw fylchau. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y rhai sydd yn gadael ein gofal yn cael eu paratoi a'u harfogi ar gyfer bywyd fel oedolyn gan sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth addas i'w cynorthwyo i wireddu eu potensial. Gall hynny gynnwys cytuno trefniadau gyda'n partneriaid Tai i sicrhau eu bod yn cael pob cefnogaeth i fyw'n annibynnol

### Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion

'Rydym yn ddiweddar wedi ymgynghori ar gynaliadwyedd y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd ac mae yna  bryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion bresennol yn gynaliadwy o gofio'r sialensau sylweddol sydd o'n blaenau.

'Rydym wedi ymgynghori ar gyfres o egwyddorion ddylai fod yn sail i unrhyw newid i'r dyfodol a byddwn yn sefydlu cynllun i wreiddio'r egwyddorion hynny er mwyn sicrhau cyfundrefn addysg hyfyw fydd yn sicrhau fod pob plentyn yn y sir yn cael cyfle teg i ddatblygu ei botensial.

**Cryfhau  Arweinyddiaeth**

Mae recriwtio a chadw penaethiaid yn broblem gynyddol yng Ngwynedd. Er bod gennym nifer o Arweinwyr da nid oes digon o arweinwyr cymwys ar hyn o bryd i sicrhau ansawdd yr arweinyddiaeth yn ein hysgolion, ac nid oes digon o unigolion wedi'u paratoi a'u datblygu ar gyfer y nifer gynyddol o rolau arwain gwahanol.

Er ein bod eisoes wedi rhoi pecyn cefnogaeth a hyfforddiant llwyddiannus at ei gilydd, mae angen i ni barhau i gryfhau arweinyddiaeth ein hysgolion ynghyd ag adnabod, hyfforddi, datblygu a recriwtio'r bobl orau i'w harwain rŵ an ac i'r dyfodol.

Byddwn yn parhau i annog a hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion, gan ymrwymo i raglenni datblygu arweinyddiaeth sydd ar gael. Byddwn hefyd yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol gan sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r rhaglenni hyn.

**Swyddfeydd Addysg Ardal**

Ers peth amser, mae cynnydd wedi bod ym mhryderon penaethiaid ysgolion ynglŷn â'u hamodau gwaith, wrth iddynt orfod cyflawni nifer o rolau gwahanol; fel arweinwyr, rheolwyr, athrawon a gweinyddwyr. Mae arolygiadau Estyn yn ddieithriad yn dangos mai arweinyddiaeth effeithiol, gyda'r adnoddau ac amser digonol ynghlwm, sydd yn arwain at addysg dda a safonau uchel.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Swyddfeydd Addysg Ardal er mwyn datblygu'r gefnogaeth a'r gynhaliaeth i'n hysgolion, a rhesymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol. Gwneir hynny drwy ddatblygu rôl y Swyddogion Busnes a Gwasanaethau i gydlynu a hwyluso gwaith partneriaethol rhwng yr ysgolion eu hunain, a rhwng adrannau'r Cyngor, er mwyn lleihau baich gwaith rheolaethol a gweinyddol penaethiaid ac athrawon.

**Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

Mae gwaith eisoes wedi'i gyflawni i drawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Byddwn nawr yn datblygu'r gynhaliaeth yn y dosbarth, darpariaeth cyn ysgol, darpariaeth ôl 16 ac Ysgolion Arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith partneriaethol presennol rhwng ein Hysgolion Arbennig a chydag ysgolion prif lif yr awdurdod er mwyn gwella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth.

**Dalgylch Bangor**

Mae nifer o ysgolion cynradd yn nalgylch Bangor (ac yn arbennig yn ardal Penrhosgarnedd) yn llawn neu'n orlawn.

Rydym wedi llwyddo i ddenu arian gan Lywodraeth Cymru i'w fuddsoddi yn narpariaeth addysg o fewn y dalgylch ond fe fydd yn rhaid i ni hefyd ddarparu hanner yr arian. Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth addysg ym Mangor gan edrych i roi cynllun newydd ar waith a fydd yn gwella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

**Dalgylch Y Berwyn**

Mae’r Cyngor eisoes wedi penderfynu ad-drefnu addysg yn nalgylch Y Berwyn er mwyn rhesymoli’r gyfundrefn ysgolion a gwella’r ddarpariaeth addysg a’i safonau.

Mae’r gwaith adeiladu eisoes ar waith, a bu i ni agor cae pêl-droed bob tywydd ym Maes Tegid, Bala sydd yn adnodd ar gyfer holl ysgolion y dalgylch yn ogystal â’r gymuned ehangach.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu Campws Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-19 oed ar safle Ysgol y Berwyn, Y Bala a fydd hefyd yn cynnig gwasanaethau i’r gymuned leol erbyn mis Medi 2019. Golyga hyn gwblhau’r broses o sefydlu’r corff llywodraethol, cwblhau’r gwaith adeiladu a chynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer agor y Campws Dysgu newydd.

**Strategaeth Iaith Uwchradd**

Mae’r Siarter Iaith wedi bod yn weithredol yn ein hysgolion cynradd ers nifer o flynyddoedd gyda’r nod o gael mwy o blant i ddefnyddio’r Gymraeg. Bellach mae Llywodraeth Cymru wedi lledaenu defnydd y siartr i siroedd eraill yng Nghymru. Yn sgil llwyddiant y Siarter, mae galw cynyddol wedi bod i sicrhau dilyniant iddi yn yr ysgolion uwchradd. Mae tystiolaeth o waith ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg yn profi’r angen am gynllun a strategaeth i hyrwyddo’r defnydd cwricwlaidd a chymdeithasol o’r Gymraeg yn ein hysgolion uwchradd.

Byddwn yn parhau i gyflogi Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd fydd yn darparu her a chefnogaeth briodol i’n hysgolion uwchradd. Bydd gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol ac unigryw fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a’r gymuned o’i hamgylch. Bydd y bobl ifanc eu hunain hefyd yn datblygu rhaglen o weithgareddau anffurfiol a chyffrous ar gyfer eu cyfoedion, er mwyn codi statws a chynyddu’r cyfleoedd anffurfiol i bobl ifanc ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol.

**Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y blaenoriaethau uchod, nodwch nhw yma os gwelwch yn dda:**

# Gofal, a Llesiant Cymunedol

Yn gyffredinol, mae'r gwasanaethau gofal a ddarperir gennym yn dda, ond mae poblogaeth sy'n heneiddio, daearyddiaeth wasgaredig, galw cynyddol ac anhawster cyson i recriwtio a chadw staff yn creu sefyllfa heriol yn y maes iechyd a gofal. Gyda phwysau ariannol yn ein taro hefyd, nid yw'r dulliau traddodiadol o weithredu bellach am ddiwallu gwir anghenion ein pobl. 'Rydym eisoes wedi bod yn gwneud cryn dipyn o waith i geisio sefydlu ffyrdd gwahanol o fodloni'r galw sydd arnom. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn ceisio gwella'r ffyrdd yr ydym yn cefnogi oedolion sydd yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal. Mae cynnydd da wedi ei wneud gyda'r gwaith ond mae llawer o waith pellach i'w wneud.

Rydym yng Nghyngor Gwynedd yn ymrwymedig i ddod o hyd i ddatrysiadau ymarferol i'r heriau sydd o'n blaenau. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector gan gydlynu ein gwasanaethau ar lefel mwy lleol. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio'n agosach gyda phartneriaid megis gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl i geisio canfod yr atebion gorau i anghenion y rhai hynny sydd angen cymorth. Bydd y dull yma o weithredu yn wahanol i'r ffordd draddodiadol o weithredu drwy fuddsoddi mewn gwasanaethu ataliol a hyrwyddo byw'n annibynnol.

## Gwydnwch Cymunedol

Dros y 5 mlynedd diwethaf 'rydym wedi ceisio sicrhau bod pobl Gwynedd yn glir ynghylch yr her sydd yn eu hwynebu o fewn y maes gofal gan ysgogi a chefnogi cymunedau i fod yn wydn. Mae'r gwaith yma wedi arwain at ddatrysiadau ataliol eu natur sydd wedi cynyddu opsiynau gofal lleol i bobl. Ein bwriad dros y blynyddoedd nesaf yw parhau i edrych ar gyfleoedd i adeiladu ar y cryfderau sydd o fewn ein cymunedau a cheisio cyd-gynhyrchu ystod lawn o gefnogaeth ataliol er mwyn gwneud hi'n haws i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda'n gofalwyr di-dâl i geisio dod i ddatrysiadau cywir er budd y rhai sydd angen gofal.

Byddwn yn datblygu gwasanaethau ataliol sydd wedi eu hanelu at gefnogi trigolion, gan gysylltu pobl â chefnogaeth o fewn eu cymunedau gan ganolbwyntio ar 5 ardal yn ystod y flwyddyn gyntaf a'u gwneud yn Ddementia Gyfeillgar. Rhan allweddol o wydnwch cymunedol yw sut mae gwahanol genedlaethau yn cyd-fyw a chymdeithasu a byddwn yn adeiladu ar y gwaith y tu ôl i'r rhaglen 'Hen Blant Bach' a fu'n gyfle i edrych ar sut y byddai dod a phlant oed meithrin a phobl hŷn at ei gilydd.

## Ail Ddylunio Gwasanaethau Gofal

Mae'n bwysig ein bod yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal. Rydym wedi bod yn cydweithio hefo'r Bwrdd Iechyd a threialu ffyrdd newydd arloesol o weithio fel sydd wedi digwydd yn Ysbyty Alltwen er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni hynny. Rydym ar siwrne heriol ac uchelgeisiol, ond mae llwyddiannau'r blynyddoedd diweddar yn dangos y gallu sydd gennym i ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n addas i'r dyfodol.

Byddwn yn parhau gyda’r gwaith hwn gan sefydlu 5 tîm lleol ar y cyd gyda’n partneriaid fydd yn sicrhau gwasanaethau effeithiol gyda’r ffocws ar yr unigolyn, a sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â beth sy’n bwysig i’r unigolyn hwnnw.

Fel rhan o’n gwaith gyda’n darparwyr gwasanaethau gofal byddwn yn arbrofi hefo ffyrdd newydd o gomisiynu pecynnau gofal cartref a hefyd yn buddsoddi yn ein cartrefi gofal er mwyn gwella ein darpariaeth gofal mwy dwys. Yn ogystal, fe fyddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn cryfhau gwasanaethau iechyd meddwl yn lleol ac yn edrych ar ffyrdd arloesol o wella gwasanaeth anabledd dysgu.

**Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal**

Mae recriwtio i’r maes Gofal yn heriol am amryw o resymau a thra bod gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, mae’n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr gyda’r sgiliau angenrheidiol i ddiwallu’r angen cynyddol sy’n codi. Dros y blynyddoedd mae nifer o ymdrechion recriwtio wedi bod yn y maes ond bydd angen sylw pellach er mwyn sicrhau ein bod yn deall y broblem yn iawn ac yn ymateb yn y ffordd orau.

Cyn medru sefydlu cynllun gweithredu i ddatrys y broblem mae angen i ni sicrhau ein bod yn wir ddeall y broblem a byddwn yn cynnal ymchwiliad i’r sefyllfa bresennol yng Ngwynedd, y pwysau ar ein gweithlu ac i’r Cyngor, ac yn edrych i weithredu ar yr atebion ddaw i’r amlwg. Byddwn hefyd yn gweithio i godi proffil a statws gweithwyr gofal trwy adolygu llwybrau gyrfaol presennol, fel bod gyrfa mewn gwaith gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa cadarnhaol a byddwn yn hyrwyddo'r maes gofal fel gyrfa drwy ledaenu gwybodaeth briodol i sefydliadau lleol. Byddwn hefyd yn adolygu ein cynllun Prentisiaeth o fewn y Cyngor i geisio dylanwadu ar y nifer o brentisiaethau o fewn y maes gofal.

| **Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y blaenoriaethau uchod, nodwch nhw yma os gwelwch yn dda:** |
| --- |
| |

# Tlodi, Economi, Tai

**Cydymdrechu yn erbyn Tlodi**

Mae tlodi yn effeithio ar nifer o drigolion a chymunedau yng Ngwynedd gyda chanran uchel o gartrefi yn byw islaw'r trothwy tlodi.

Tra bod gennym nifer o wasanaethau sydd yn ceisio helpu pobl i ddod allan o dlodi ac i geisio meirioli ei effaith, dros y misoedd nesaf byddwn yn edrych i roi trefniadau newydd yn eu lle er mwyn cydlynu ymdrechion y Cyngor a phartneriaid yn y maes gan hefyd edrych ar yr ymyraethau sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol fel y gellir canolbwyntio arnynt.

Yn ogystal, byddwn yn parhau gyda gwaith i helpu trigolion i fagu sgiliau i ymdopi gyda rheoli incwm y cartref a dyledion, i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein a gweithredu cynlluniau fydd yn rhoi cyfleoedd gwaith i bobl sydd ddim yn rhan o'r farchnad lafur. Byddwn hefyd yn rhoi cefnogaeth i bobl i ymdopi hefo newidiadau yn y maes lles a budd-daliadau.

**Cadw'r Budd yn Lleol**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.

Mae llawer o waith eisoes wedi ei wneud gyda threfniadau newydd wedi eu cyflwyno ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon, a chamau wedi eu cymryd er mwyn hwyluso gallu busnesau i gystadlu am gytundebau. Yn 2016/17 roedd pryniant nwyddau a gwasanaethau gan y Cyngor yn werth dros £59.8miliwn i'r economi leol.

Rydym yn awyddus i adeiladu ymhellach ar y gwaith hwn gan geisio cynyddu gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau o drefn gaffael y Cyngor gan eu cefnogi i gystadlu ac ennill cytundebau'r Cyngor a thu hwnt.

**Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)**

Mae cyflogau isel yn nodwedd amlwg yn y Sir, gyda thâl wythnosol yng Ngwynedd (£410) yr ail isaf yng Nghymru, a thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£375), sy'n eu gwneud ymysg yr isaf yn y Deyrnas Unedig.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i greu mwy o swyddi sy'n talu'n well.

Byddwn yn edrych i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd, tyfu busnesau presennol, a denu buddsoddiad ychwanegol. Un ffordd o wneud hyn yw creu'r amodau i ddenu buddsoddiad mewn safleoedd strategol megis Atomfa Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin/ Parc Menai. Mae gwaith da eisoes

wedi cychwyn i ddenu buddsoddiadau i safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr, ond mae angen cynnal y momentwm yma.

**Arloesi Gwynedd Wledig**

Gyda natur ein heconomi wledig yn golygu nad yw 79% o fusnesau Gwynedd yn cyflogi mwy nag un person, a gormod o waith o fewn sectorau sydd ddim yn talu'n dda, mae hyn yn cyflwyno bygythiadau o ran cynaladwyedd ein cymunedau gwledig.

Mae sicrhau cysylltedd digidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt yn fater sydd angen ymateb iddo os am sicrhau cymunedau llewyrchus.

Rydym eisoes wedi denu £4miliwn o arian Rhaglen Datblygu Gwledig i'r Sir i ddatblygu dulliau arloesol ac ystod o ddatblygiadau cyffrous er mwyn targedu'r cymunedau gwledig.

Ein bwriad yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud i drawsnewid yr economi wledig trwy gyflwyno arloesedd o fewn sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth) gan roi sylw arbennig i ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd.

**Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith**

Mae nifer o gymunedau mwyaf anghenus Gwynedd yn gyfoethog o ran treftadaeth ac yn gartref i Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol neu arfaethedig, megis y cyn ardaloedd llechi traddodiadol.

Mae cyfle yma i ni ddefnyddio dynodiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio cymunedau ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr. Byddwn yn edrych i wireddu rhaglen o weithgaredd adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, gwedd a golwg cymunedau ac yn ansawdd y profiad i dwristiaid.

**Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion**

Mae digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfle masnachol i fusnesau lleol ddarparu gwasanaethau yn lleol. Trwy gynnal digwyddiadau mae modd codi proffil Gwynedd a'i farchnata i ymwelwyr fel lle cyffrous a byrlymus ac yn lleoliad delfrydol i fusnesau fuddsoddi.

Rydym eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o ddigwyddiadau proffil uchel cenedlaethol a rhyngwladol i'r Sir sydd wedi dod a £6.7m o fuddsoddiad yn 2016/17. Rydym yn awyddus i barhau gyda hyn a sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o'r digwyddiadau. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y nifer o ymwelwyr i'r Sir, a chynnydd yn y nifer o'r cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

**Mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith**

Mae tâl wythnosol yng Ngwynedd (£410) yr ail isaf yng Nghymru, ac yn 78% o gyfartaledd y DU (£525). Mae bod y tu allan i'r byd gwaith a diweithdra yn uwch yn Arfon na'r cyfartaledd sirol.

Gall bod tu allan i'r byd gwaith arwain at leihau cyfoeth trigolion a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus ac mae ei atal yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd

uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.
Byddwn yn edrych i ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau er mwyn cael mwy o drigolion Gwynedd i waith llawn amser gan leihau segurdod a diweithdra.

**Elwa o Dwristiaeth**

Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd ac mae'r sector yn cyfrannu £1biliwn i'r economi'n flynyddol ac yn cyflogi dros 15,000 yn y sir.

Er hyn, mae ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r sir, cost sy'n cael ei ysgwyddo yn bennaf gan drigolion Gwynedd.

Ein bwriad yw edrych ar y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu yn ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr.

### Cyngor sy'n Cyflawni i Fusnesau Lleol

Mae busnesau'r sir yn ymwneud ac yn derbyn gwasanaeth gan nifer o Adrannau'r Cyngor, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael.

Drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog ac yn ceisio lleihau rhwystrau gellid cefnogi ac annog busnesau i sefydlu a thyfu yn y sir.

Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn adolygu sut y mae'r gwasanaethau yma yn cael eu darparu er mwyn ystyried a oes lle i wella ac yn gweithredu ar unrhyw wersi ddaw i'r amlwg i sicrhau fod busnesau yn cael eu cynorthwyo i ffynnu.

## Maes Tai

### Tai addas a Fforddiadwy

Rydym yn gwybod mai sylfaen i fyw'n dda yw cael cartref fforddiadwy o ansawdd. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i geisio sicrhau mwy o dai addas a fforddiadwy, yn ogystal â chartrefi o ansawdd sy'n cwrdd ag anghenion ein trigolion.

Yn ystod y flwyddyn rydym fel Cyngor wedi bod yn gweithredu i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai sydd ar gael er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd. Rydym angen parhau i weithredu yn y maes pwysig yma.

Wrth wneud hyn byddwn yn sicrhau ystod eang o fanteision o ran iechyd a llesiant ein trigolion ac yn rhoi sylfaen i unigolion a theuluoedd i ffynnu. Rydym hefyd yn ymwybodol bod gwella safon tai yn mynd i arwain at leihau pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal.

Mae sawl her yn wynebu Gwynedd yn y maes tai gan gynnwys poblogaeth sydd yn heneiddio a newid mewn budd-daliadau, ond mae cyfleodd hefyd yn bodoli. Ein bwriad yw sicrhau fod gennym ddealltwriaeth fanwl am natur y galw am dai o fewn ein cymunedau er mwyn blaenoriaethu ein hymdrechion i greu'r budd cymdeithasol mwyaf. Byddwn yn gwneud hyn trwy fapio'r galw am dai yn ein hardaloedd fydd y paratoi'r ffordd at greu rhaglen i ymateb i'r galw.

Unwaith y byddwn yn deall y galw byddwn yn ystyried a yw ein rhaglenni presennol yn cyfarch yr angen hwnnw neu a oes angen i ni fod yn gwneud rhywbeth gwahanol.

Byddwn yn targedu ardaloedd lle mae angen datblygu tai o wahanol fathau (gan gynnwys tai gofal ychwanegol) yn enwedig ar gyfer pobl hŷn ac ifanc.

**Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai**

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar geisio atal digartrefedd yn y lle cyntaf drwy gynorthwyo a chynnig sefydlogrwydd i nifer o deuluoedd mewn cyfnod anodd ac mae ein hymdrechion cyffredinol i atal digartrefedd wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r darlun o ran y cymorth sydd yn ymwneud ag anghenion tai yn un cymhleth ac mae'r heriau sydd yn wynebu pobl yn amrywio'n fawr, ac oherwydd hyn mae angen i ni ymateb yn well.

Ein bwriad yw gwella mynediad trigolion at gymorth sydd yn ymwneud ag anghenion tai gan adnabod mentrau a chynlluniau sydd ar gael i'w cynorthwyo. Byddwn hefyd yn dod i benderfyniad ar y ffordd orau i hyrwyddo'r cynlluniau a'r mentrau yma ac ynghylch yr angen i ddatblygu cefnogaeth benodol bellach.

| **Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y blaenoriaethau uchod, nodwch nhw yma os gwelwch yn dda:** |
| --- |
| |

# Y Gymraeg

## Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn y ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu hefo cyrff cyhoeddus.

Mae rhywfaint o waith eisoes wedi ei wneud er mwyn sefydlu ar ba lefel y mae pob corff cyhoeddus o ran eu gallu i gynnig y cyswllt cyntaf i ddinasyddion Gwynedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn edrych i wella'r sefyllfa trwy gydweithio hefo sefydliadau cyhoeddus yn y sir er mwyn galluogi ac annog trigolion Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu hefo'r sefydliadau a sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth.

## Busnesau Gwynedd yn defnyddio'r Gymraeg

Mae gan fusnesau Gwynedd rôl i'w chwarae mewn hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg a'n bwriad fydd annog busnesau i ddefnyddio'r iaith wrth gynnig gwasanaeth.

Bydd angen i ni ystyried sut y mae modd i'r Cyngor hyrwyddo hyn a pha weithgareddau sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol yn y maes.

## Hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau'r Cyngor

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg a sicrhau bod gwaith mewnol y Cyngor yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, rydym yn cydnabod ein bod mewn cyfnod heriol a bod angen gweithio yn barhaus i wthio'r ffiniau a gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn gyson ar draws ein gwasanaethau.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gyda 4 adran o fewn y Cyngor i adnabod bylchau a mannau gwella o ran y ddarpariaeth Gymraeg. Ein bwriad yw adeiladu ar y gwaith hwnnw, drwy gydweithio gydag adrannau i edrych ar y modd y maent yn ateb gofyn y cyhoedd am wasanaethau Cymraeg, i ystyried eu llwyddiant i normaleiddio'r Gymraeg a'r ffyrdd y gallent fod yn hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg eu defnyddwyr.

**Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y blaenoriaethau uchod, nodwch nhw yma os gwelwch yn dda:**

## Cynllunio Ariannol

### Gwireddu Arbedion

Mae'r toriadau yn yr arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn golygu fod angen i ni ddygymod hefo derbyn llai o arian i gynnal ein gwasanaethau. Dros yr 8 blynedd diwethaf rydym wedi gorfod tynnu dros £48m o gyllideb y Cyngor.

Serch hynny 'rydym wedi bod yn lled llwyddiannus yn cadw'r effaith ar drigolion Gwynedd i'r lleiaf posibl ond bellach mae'r toriadau wedi cychwyn brathu. Nid oes yna unrhyw argoel fod y toriadau parhaus yn y cyllid sydd yn cael ei roi i ni gan Lywodraeth Cymru i dalu am y gwasanaethau allweddol yr ydym yn eu darparu am ddod i ben yn y dyfodol agos.

Byddwn felly yn parhau hefo'r gwaith o sicrhau ein bod yn gwireddu'r arbedion hynny sydd wedi eu cymeradwyo eisoes a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer darganfod arbedion y dyfodol. Yn ystod 2018/19 byddwn yn datblygu dewisiadau arbedion ar gyfer 2019/20 ymlaen er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Byddwn yn naturiol yn ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ar y dewisiadau hynny.

**Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y blaenoriaethau uchod, nodwch nhw yma os gwelwch yn dda:**

# Blaenoriaethau Lleol

Mae rhai o'r Blaenoriaethau Sirol yn lleol eu naws, megis datblygu darpariaeth addysg yn ardaloedd Bangor a'r Bala, neu ddatblygu potensial y cyn ardaloedd llechi traddodiadol. Yn ychwanegol i'r gwaith sydd eisoes wedi ei adnabod, bu'r Aelodau Etholedig ar gyfer y gwahanol ardaloedd yng Ngwynedd yn blaenoriaethu nifer o faterion fesul ardal leol fel rhai sydd angen sylw neu'n achosi pryder yn yr ardaloedd hynny.

Dros y misoedd nesaf bydd gwaith pellach i'w wneud er mwyn ystyried os y gallwn ymateb iddynt a'i peidio.

## Blaenoriaethau Ardal Bangor

Mae'r materion isod wedi eu hadnabod fel y meysydd sydd fwyaf o angen sylw. Beth sy'n bwysig i chi? Rhowch eich sylwadau ar ddiwedd y bennod hon.

1. Mae yna bryder bod **nifer uchel o dai amlbreswyliaeth** (Houses in Mulitiple Occupation – HMOs) ym Mangor, gan effeithio'n negyddol ar ymddangosiad y ddinas, gyda phlacardiau yn cael eu harddangos drwy'r flwyddyn a chynnydd mewn sbwriel. Mae pryder hefyd fod y sefyllfa yn arwain at nifer uwch na'r cyffredin o dai gwag, gyda sgil effaith hynny ar leihau'r farchnad dai i drigolion lleol.
2. Mae llanast sy'n cael ei adael ar ôl yn dilyn **casgliadau sbwriel ac ailgylchu** yn anharddu'r ddinas, felly mae angen lliniaru'r broblem.
3. Mae angen ystyried cydweithio gyda busnesau lleol, Cynghorau Tref a Chymuned, a phartneriaid i **greu incwm er mwyn gwella edrychiad yr ardal leol,** fyddai yn ei dro yn cefnogi busnesau a chrefftwyr lleol.

## Blaenoriaethau Ardal Dyffryn Ogwen

Mae'r materion isod wedi eu hadnabod fel y meysydd sydd fwyaf o angen sylw. Beth sy'n bwysig i chi? Rhowch eich sylwadau ar ddiwedd y bennod hon.

1. Mae yna ymdeimlad o brinder cartrefi addas i'r boblogaeth leol, gan gynnwys pobl hŷn, ac felly mae **sicrhau cyflenwad digonol o dai pwrpasol**, gan gynnwys tai gofal ychwanegol, yn flaenoriaeth i bobl leol.
2. Mae pryder fod **diffyg llefydd parcio cyhoeddus i bobl leol** yn arwain at broblemau diogelwch yn ogystal â bod yn anghyfleus.
3. Dylid ystyried datblygu polisi er mwyn **hyrwyddo ac adfywio Stryd Fawr Bethesda** er mwyn datblygu'r economi leol ac elwa o gynnydd mewn twristiaeth.

## Blaenoriaethau Ardal Caernarfon

Mae'r materion isod wedi eu hadnabod fel y meysydd sydd fwyaf o angen sylw. Beth sy'n bwysig i chi? Rhowch eich sylwadau ar ddiwedd y bennod hon.

1. Un o'r prif faterion sy'n peri pryder yn yr ardal yw **diogelwch ffyrdd** yn enwedig ar Lôn Llanbeblig, Lôn Llanberis a'r lonydd sy'n gyfagos i Ysgol Llanberis.

2. Mae dyhead i wella **delwedd weledol yr ardal** gan gynnwys **gwair sydd angen ei dorri, sbwriel a baw ci**. Yn ychwanegol, mae ymdeimlad cryf fod llanast sy'n cael ei adael ar ôl yn dilyn **casgliadau sbwriel ac ailgylchu** yn anharddu'r ardal, gyda'r blerwch cyffredinol yn yr ardal yn digalonni pobl leol.

3. Mae pryder fod **diffyg llefydd parcio cyhoeddus i bobl leol** yn peri problemau diogelwch yn ogystal â bod yn anghyfleus.

## Blaenoriaethau Ardal Dyffryn Nantlle

Mae'r materion isod wedi eu hadnabod fel y meysydd sydd fwyaf o angen sylw. Beth sy'n bwysig i chi? Rhowch eich sylwadau ar ddiwedd y bennod hon.

1. Mae ymdeimlad cryf bod angen gwella **edrychiad blêr yr ardal** gan gynnwys **gwair sydd angen ei dorri, sbwriel, a baw ci ar strydoedd, llwybrau a pharciau,** sy'n cael effaith negyddol ar yr ardal.

2. Mae awydd lleol i gydweithio gyda'r Cyngor i newid **delwedd negyddol** Dyffryn Nantlle er mwyn gwireddu'r potensial mawr sydd yno.

3. Un o'r prif faterion sy'n peri pryder yn Nyffryn Nantlle yw **diogelwch ffyrdd** yn yr ardal, gan gynnwys lonydd cyffredinol Dyffryn Nantlle yn ogystal â Ffordd y Brenin ym Mhenygroes.

## Blaenoriaethau Ardal Llŷn

Mae'r materion isod wedi eu hadnabod fel y meysydd sydd fwyaf o angen sylw. Beth sy'n bwysig i chi? Rhowch eich sylwadau ar ddiwedd y bennod hon.

1. Mae pryder yn lleol am **ddarpariaeth a chynaliadwyedd ein cartrefi a chartrefi nyrsio i'r henoed** ar draws y sir. Wrth i boblogaeth Gwynedd heneiddio, a'u hanghenion gofal ddwysau mae angen sicrhau fod darpariaeth gofal pwrpasol ar gael.

2. Mae canfyddiad fod diffyg **darpariaeth gofal ac iechyd** yn yr ardal gan gynnwys nyrsys, meddygon a gofalwyr cartref. Barn y cynghorwyr lleol yw bod angen cydweithio gyda'n partneriaid i ddenu a chadw gweithwyr cymwys er mwyn cryfhau'r gwasanaethau gofal iechyd yn yr ardal.

3. Mae teimlad cryf fod **diffyg torri gwair yn creu blerwch yr ardal.** Y farn yn lleol yw bod gwair sydd wedi gordyfu yn cael effaith negyddol ar gymunedau'r ardal a'r blerwch yn digalonni pobl leol.

## Blaenoriaethau Ardal Porthmadog

Mae'r materion isod wedi eu hadnabod fel y meysydd sydd fwyaf o angen sylw. Beth sy'n bwysig i chi? Rhowch eich sylwadau ar ddiwedd y bennod hon.

1. Mae ymdeimlad y dylid ceisio denu **mwy o swyddi sefydlog, tymor hir sy'n talu cyflogau da** er mwyn gwella sefyllfa economaidd trigolion lleol. Y farn yw bod safle daearyddol Porthmadog yng nghanol y sir yn cynnig ei hun i fod yn **hwb economaidd** i ddenu busnesau a sefydliadau.

2. Y farn yn lleol yw y dylid **gwella cyflwr y llwybr arfordirol** er mwyn denu mwy o gerddwyr a beicwyr i'r ardal, fydd yn ei dro yn arwain at gynyddu'r cyfleoedd economaidd er budd trigolion lleol.

3. Mae pryder am gyflwr **safleoedd segur** yn yr ardal megis Bron y Garth, Y Felin, Tŷ Moelwyn, Coliseum a'r Hen Danerdy (Tremadog), a dylid **gwella golwg** a chynllunio defnydd newydd pwrpasol i'r safleoedd hyn.

## Blaenoriaethau Ardal Ffestiniog

Mae'r materion isod wedi eu hadnabod fel y meysydd sydd fwyaf o angen sylw. Beth sy'n bwysig i chi? Rhowch eich sylwadau ar ddiwedd y bennod hon.

1. Er mwyn gwella sefyllfa economaidd yr ardal, mae barn yn lleol fod rhaid denu **mwy o swyddi sefydlog sy'n talu cyflogau da**, gan gynnwys cynllun i **ail ddylunio ac adfywio'r Stryd Fawr.**

2. Mae pryder mawr yn yr ardal ynghylch **dyfodol y Ganolfan Gymunedol**, yn benodol dyfodol y Ganolfan Ddydd a'r Clwb Ieuenctid.

3. Mae yna ganfyddiad yn lleol o brinder cartrefi addas i'r boblogaeth hŷn, ac felly mae **sicrhau cyflenwad digonol o dai pwrpasol** yn flaenoriaeth i'r ardal.

## Blaenoriaethau Ardal Dolgellau

Mae'r materion isod wedi eu hadnabod fel y meysydd sydd fwyaf o angen sylw. Beth sy'n bwysig i chi? Rhowch eich sylwadau ar ddiwedd y bennod hon.

1. Mae **gwella cysylltedd a darpariaeth band eang safonol a signalau ffôn symudol** yn flaenoriaeth i bobl leol.

2. Mae'r ymdeimlad fod **diffyg darpariaeth gofal pwrpasol** yn yr ardal yn bryder i'r bobl leol. Wrth i boblogaeth Gwynedd heneiddio, a'u hanghenion gofal ddwysau mae angen sicrhau fod darpariaeth gofal pwrpasol ar gael.

3. Oherwydd canfyddiad fod prinder cartrefi addas i deuluoedd ifanc, mae **sicrhau cyflenwad digonol o dai pwrpasol**, yn flaenoriaeth i bobl leol.

## Blaenoriaethau Ardal Penllyn

Mae'r materion isod wedi eu hadnabod fel y meysydd sydd fwyaf o angen sylw. Beth sy'n bwysig i chi? Rhowch eich sylwadau ar ddiwedd y bennod hon.

1. Mae awydd yn lleol i'r Cyngor **gydweithio gyda Phartneriaeth Penllyn** i dreialu trefniant lle y byddant yn derbyn cyfrifoldeb dros adnoddau o fewn y gymuned megis meysydd parcio er mwyn ddefnyddio'r incwm i gynnal gwasanaethau lleol megis toiledau.

2. Er mwyn gwella sefyllfa economaidd yr ardal, mae barn yn lleol bod angen denu **mwy o swyddi sefydlog sy'n talu cyflogau da**.

3. Mae **diffyg llefydd parcio i weithwyr ar stad ddiwydiannol y Bala** yn bryder i'r bobl leol. Mae angen adnabod opsiynau a lleoliadau eraill i'r gweithwyr.

## Blaenoriaethau Ardal Tywyn

Mae'r materion isod wedi eu hadnabod fel y meysydd sydd fwyaf o angen sylw. Beth sy'n bwysig i chi? Rhowch eich sylwadau ar ddiwedd y bennod hon.

1. Mae yna deimlad yn lleol fod **prinder** gweithwyr cymwys i lenwi **swyddi Gofalwyr Cartref neu Ofalwyr mewn cartrefi i oedolion**. Mae hyn yn wir hefyd am ofalwyr sydd â sgiliau'r iaith Gymraeg. Gall hyn arwain at broblemau sy'n golygu na allwn ddarparu'r gofal gorau posib i'n trigolion ar hyn o bryd, na chynllunio'r ddarpariaeth yn ddigonol at y dyfodol.

2. Y farn yn lleol yw bod angen **cwblhau'r llwybr beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi,** rhag ofn ein bod yn colli cyfle i elwa'n economaidd o'r diwydiant twristiaeth, ac er mwyn rhoi'r cyfleoedd gorau i drigolion lleol gadw'n iach a heini drwy ddefnyddio'r cyfleusterau lleol naturiol.

3. Mae awydd yn lleol i **wella delwedd weledol yr ardal,** oherwydd bod blerwch cyffredinol yn digalonni pobl leol ac yn debygol o gael effaith negyddol ar dwristiaeth. Mae'r problemau yn codi oherwydd blerwch cyffredinol megis sbwriel, chwyn a baw cŵn.

**Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y blaenoriaethau uchod, nodwch nhw yma os gwelwch yn dda:**

**Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach, nodwch nhw yma os gwelwch yn dda:**

**Amdanoch chi:**

**Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth isod. Rydym yn casglu'r wybodaeth i bwrpas monitro'n unig, ac fe fydd pob ymateb yn gwbl gyfrinachol.**

**Cewch ddewis peidio ag ateb unrhyw gwestiwn neu gwestiynau os nad ydych yn dymuno gwneud hynny.**

**i) Ar ran pwy ydych chi'n cwblhau'r holiadur?**

Fel unigolyn
Ar ran sefydliad neu fusnes, nodwch enw'r sefydliad neu fusnes ________________

**ii) Nodwch eich Cod Post os gwelwch yn dda: ___________________________**

**iii) Nodwch eich rhyw os gwelwch yn dda:**

Gwryw Benyw
Arall – nodwch os gwelwch yn dda: ________________
Gwell gennyf beidio â dweud

**iv) Pa grŵp oedran ydych chi'n perthyn iddo??**
O dan 16 - ***os ydych chi o dan 16 oed, atebwch gwestiynau i - vii yn unig***

18 – 29 30 – 39 40 - 49
50 – 59 60 – 69 70 neu'n hŷn
Gwell gennyf beidio â dweud

**v) Sut byddech yn disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?**

Cymro / Cymraes
Sais / Saesnes
Albanwr / Albanes
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
Prydeiniwr / Prydeinwraig
Arall – nodwch os gwelwch yn dda: __________
Gwell gennyf beidio â dweud

**vi) Disgrifiwch eich tarddiad ethnig:**

Gwyn
Cymysg / sawl grŵp ethnig
Asiaidd
Du / Affricanaidd / Caribïaidd
Arall – nodwch os gwelwch yn dda: ___________________
Gwell gennyf beidio â dweud

**vii)** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod anabledd gan unigolyn os:

a) Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a
b) Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd

**Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?**

Ydw — Nac Ydw — Gwell gennyf beidio â dweud

**viii) Beth yw eich crefydd?**

| | | |
|---|---|---|
| Cristion (pob enwad) | Mwslim | Bwdhydd |
| Hindŵ | Iddew | Anffyddiwr |
| Sikh | Dim crefydd | |

Arall – nodwch os gwelwch yn dda: ____________
Gwell gennyf beidio â dweud

**ix) Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?**

| | | |
|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | Dyn hoyw | Merch hoyw / lesbiad |
| Deurywiol | Gwell gennyf beidio â dweud | |

Arall – nodwch os gwelwch yn dda: _________________________

**x) Adeg eich geni, a ddisgrifiwyd eich rhywedd fel:**

| | |
|---|---|
| Gwryw | Benyw |
| Rhyngrywiol | Gwell gennyf beidio â dweud |

**xi) Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?**

Gwryw — Benyw
Arall, nodwch os gwelwch yn dda: _____________
Gwell gennyf beidio â dweud

Drwy gyflwyno'r ffurflen hon, rydych yn cydnabod ac yn rhoi caniatâd penodol i Gyngor Gwynedd ddefnyddio'r data personol, gan gynnwys holl ddata cydraddoldeb sensitif (e.e. cyfeiriadedd rhywiol / ailbennu rhywedd) a ddarperir yn rhydd gennych at ddibenion monitro ac adrodd cyfreithlon i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.

**Rhagor o wybodaeth:**

Cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd:

Ffôn: **01766 771 000**
E-bost: **eichbarn@gwynedd.llyw.cymru**

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar, est 32708, neu delythgadlyswilliams@gwynedd.llyw.cymru am gymorth pellach

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r ymgysylltiad dan sylw?

Cynllun y Cyngor 2018 - 23

### 1.2 Beth ydi pwrpas yr ymgysylltu sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2018 a 2023.

Cyn mabwysiadu'r Cynllun, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod efo trigolion Gwynedd ac i glywed eu sylwadau ar y blaenoriaethau drafft a'r prosiectau mae'n bwriadu eu gweithredu o 2018/19 ymlaen.

Caiff y Cynllun ei adolygu'n flynyddol a'i ail-gyhoeddi gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 1- 27 Mehefin 2017, yn ymwneud â'r ymgysylltiad
Fersiwn 2 – 25 Hydref 2017, yn ymwneud â'r ymgysylltiad

Mi fyddwn yn gwneud asesiad llawn y dilyn canlyniadau'r ymarferiad ymgysylltu.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Aelodau, defnyddwyr gwasanaeth, trigolion Gwynedd, partneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

Nid ydym wedi ymgysylltu eto, mae'r asesiad yma am edrych ar y broses i wirio ein bod yn cynnwys pawb.

Byddwn yn cyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur byr ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori . Bydd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol.

Byddwn yn annog cymaint â phosib o bobl Gwynedd i gwblhau a dychwelyd yr holiadur gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, rhaeadru'r neges trwy ein partneriaid, gwefannau cymdeithasol ac e-newyddlen aelodau etholedig Rhaeadr.

Byddwn yn darparu cyfleodd priodol i unigolion, grwpiau diddordeb a grwpiau nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gysylltu â nhw i'w hysbysu am yr holiadur.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Amherthnasol

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 cynhaliwyd cyfres o 8 cyfarfod ardal yn ystod mis Gorffennaf er mwyn rhoi cyfle i aelodau lleol amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw o fewn yr ardaloedd hynny. Yn ogystal, bu i aelodau'r Pwyllgorau Craffu adnabod materion yr oeddent hwy o'r farn y dylid eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor i'r dyfodol.

Cynhaliwyd 4 sesiwn gweithdy pellach gydag aelodau ym mis Medi yng Nghaernarfon, Penrhyndeudraeth, Dolgellau a Phwllheli. Bwriad y gweithdai hyn oedd rhoi cyfle iddynt adnabod y blaenoriaethau sirol i'w cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor a chynnig sylwadau pellach ar y blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod fesul ardal.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Yr angen i ymgynghori'n eang gyda'r cyhoedd fydd yn cael ei ddiwallu yn fuan.

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Beth yw'r effaith fydd yr ymgysylltu yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

| Nodweddion | Oes angen gwaith ychwanegol? | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Oes | Bydd angen bod yn barod creu dogfennau mewn ieithoedd gwahanol yn ôl yr angen. Cysylltu'n uniongyrchol hefo mudiadau sy'n cynrychioli'r nodwedd. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Nac oes | Bydd popeth yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda chyfieithwyr mewn cyfarfodydd yn ôl yr angen yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor. |
| **Anabledd** | Oes | Bydd angen bod yn barod i greu dogfennau mewn fformatau addas. Cysylltu'n uniongyrchol hefo mudiadau sy'n cynrychioli'r nodweddion. |
| **Rhyw** | Nac oes | Nid oes angen unrhyw waith ychwanegol ond gallwn gysylltu'n uniongyrchol hefo mudiadau sy'n cynrychioli'r nodwedd. |
| **Oedran** | Oes | Bydd angen sicrhau fod unrhyw ddogfennaeth yn addas ar gyfer pobl hŷn a phobl ifanc. Bydd hefyd angen sicrhau fod pobl o bob oed yn cymryd rhan yn yr ymgysylltiad. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Nac oes | Nid oes angen unrhyw waith ychwanegol ond gallwn gysylltu'n uniongyrchol hefo mudiadau sy'n cynrychioli'r nodwedd. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Nac oes | Nid oes angen unrhyw waith ychwanegol ond gallwn gysylltu'n uniongyrchol hefo mudiadau sy'n cynrychioli'r nodwedd. |
| **Ailbennu rhywedd** | Nac oes | Nid oes angen unrhyw waith ychwanegol ond gallwn gysylltu'n uniongyrchol hefo mudiadau sy'n cynrychioli'r nodwedd. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Nac oes | Nid oes angen unrhyw waith ychwanegol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Nac oes | Nid oes angen unrhyw waith ychwanegol. |

## 3.2 Ydi'r ymgysylltu yn ateb y Dyletswyddau Cyffredinol yma?

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Dylid dileu'r rhai amherthnasol | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Byddwn yn rhoi'r cyfle i bawb roi barn a dweud sut y gallwn gael gwared ar unrhyw gamwahaniaethu posib |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Trwy roi'r cyfle i bawb roi barn a gweithredu ar y farn yna, byddwn yn sicrhau ein bod yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Trwy roi'r cyfle i bawb roi barn a gweithredu ar y farn yna, gallwn adnabod unrhyw siawns i feithrin perthnasau da. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r ymgysylltu felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Ydi gan ein bod am annog pobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwahanol i gymryd rhan, ac yn barod i ddarparu dogfennau mewn dulliau amgen yn ôl y galw. Yn ogystal byddwn, drwy'r defnydd o ffurflen monitro cydraddoldeb, yn gallu adnabod unrhyw batrymau sy'n cael eu hamlygu o'r hyn sy'n cael ei ddweud. Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio'r wybodaeth yna wedyn wrth lunio asesiad effaith cydraddoldeb cynhwysfawr fydd yn ein helpu wrth greu'r Cynllun gorffenedig.

### 4.2 Ydi'r ymgysylltu felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw'r ymgysylltiad yn debygol o gael effaith negyddol

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewisiwch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r ymgysylltu gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r ymgysylltiad i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r ymgysylltiad gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r ymgysylltiad oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Fel sydd wedi ei adnabod eisoes bydd angen cysylltu hefo rhai grwpiau yn uniongyrchol ac o bosib mewn dull arbennig. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Amherthnasol |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd yr ymgysylltu (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Mae'r asesiad effaith cydraddoldeb yma'n ddogfen ddatblygol ac felly byddwn yn ei ddiweddaru'n rheolaidd. |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i'r Cabinet

21ain o Dachwedd 2017

**Aelod Cabinet** : Cyng. Craig ap Iago

**Maes** : Tai (Uned Strategol)

**Swyddog Cyswllt** : Arwel Wyn Owen

**Rhif Cyswllt** :34896 **E-bost Cyswllt** : arwelwynowen@gwynedd.gov.uk

**Gwasanaeth / Adran** : Oedolion , Iechyd a Llesiant

---

**Teitl yr Eitem** : Uchafu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy drwy gryfhau capasiti strategol.

---

**Penderfyniad a Geisir :**

*Cymeradwyo dyrannu £45,646 y flwyddyn am dair blynedd (cyfanswm oddeutu £140,000), fel galwad cyntaf yn erbyn cynnyrch y premiwm treth cyngor i'w godi ar 'ail gartrefi' ac eiddo gwag o Ebrill 2018 ymlaen, er mwyn galluogi'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i benodi swyddog ychwanegol o fewn Tîm Strategol Tai, fel bydd modd i'r Cyngor fanteisio yn llawn ar arian grant gellid hawlio gan y Llywodraeth i gynyddu'r nifer o dai cymdeithasol a fforddiadwy yng Ngwynedd.*

**Prif faterion i'w hystyried gan y Cabinet** :

**1. Beth yw'r Galw ?**

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo adnoddau cyfalaf ychwanegol i helpu Llywodraeth Leol yng Nghymru ddarparu 20,000 o dai ychwanegol. Golyga hyn bod modd i ddyraniad Gwynedd godi o £4.2m rhwng 2014-17 hyd at £16.2 rhwng 2017-20 sef cynnydd o **285%.** Er yn ddatblygiad i'w groesawu mae'r sefyllfa yn creu her sylweddol gan fod angen datblygu a pharatoi ceisiadau i ddenu'r adnoddau ac arolygu'r cynlluniau. Mae angen adnodd ychwanegol i gynorthwyo ymdrechion i gynyddu'r nifer o Dai cymdeithasol a strategol .

**Cyswllt:**
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

1.2 Mae capasiti strategol yr Uned Strategol Dai wedi lleihau o 3 swyddog i 1 swyddog yn sgil rhaglen arbedion a bidiau. Ar y pryd roedd cyllidebau yn weddol sefydlog neu'n lleihau a theimlwyd bod modd dygymod gyda'r newid. Fodd bynnag yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae disgwyliadau a'r cyfrifoldebau wedi cynyddu yn sylweddol, ac nid yw'r sefyllfa gyfredol yn gynaliadwy. Heb adnodd penodol mae perygl na fyddwn yn gallu manteisio yn llawn ac y bydd yn rhaid gwrthod cynigion fyddai o gymorth i helpu pobl Gwynedd ar gyfnod pan fo galw yn cynyddu yn sgil newidiadau yn y Wladwriaeth Les.

1.3 Mae ymdrechion diweddar yr Adran wedi gorfod canolbwyntio ar gynnal cynlluniau cyfredol ac nid oes capasiti o fewn yr Uned i ymgymeryd â gwaith paratoal i ddod â chynlluniau i aeddfedrwydd gan olygu y gallwn golli allan ar arian sylweddol ac yn amddifadu y sir o gyfleon i ddenu arian i ni ymateb i heriadau newydd a bod yn rhagweithiol a chreadigol.

1.4 Yn ogystal â galwadau ychwanegol o ran Grant Tai Cymdeithasol, mae nifer o raglenni grant eraill wedi'u cyhoeddi gan gynnwys rhaglen datblygu Tai Amgen a Cynlluniau Tai Iechyd a Gofal. Gwyddom hefyd bod cyfleon i gyflwyno ceisidau am raglenni Arbed Ynni mewn cymunedau difreintiedig. Er mwyn gallu cystadlu bydd angen datblygu cynlluniau i gyfiawnhau'r ceisiadau ac i weithredu cynlluniau.Yn yr un cyfnod bydd heriadau ychwanedol rhwng 2017 -21 o ran paratoi at Wylfa Newydd a'r angen i gyflwyno cais am fesurau lliniarol..

1.5 Mae capasiti tai Cyngor Gwynedd erbyn hyn llawer is nag awdurdodau eraill. Mae'r sefyllfa yn fwy amlwg mewn awdurdod heb stoc dai gan nad yw'r adnoddau wedi'u gwarchod yn yr un modd ag awdurdodau sydd â Chyfrif Refeniw Tai (HRA). Fodd bynnag mae ein sefyllfa yn wan o gymharu â siroedd eraill sydd wedi trosglwyddo. Dros y misoedd diwethaf mae'r diffyg capasiti wedi effeithio ar ein gallu i ymateb i rai cyfleon.

1.6 Byddai adnodd ychwanegol yn ein galluogi i ymgeisio am ac uchafu ein siâr perthnasol o'r cynnydd adnodd sydd am fod a gael

## 2. Cyllideb i Ariannu

2.1 Nid oes adnodd refeniw yn rhan o'r dyraniad ariannol ac ni chaniateir defnyddio arian cyfalaf o fewn y rhaglen ar gyfer ymgymryd â'r dyletswyddau sydd yn ynghlwm â'r cynlluniau . Disgwylir i lywodraeth leol

ysgwyddo'r cyfrifoldebau a gweithredu o fewn yr adnoddau neu i ariannu o fewn adnoddau presennol.

2.2 Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu codi treth cyngor ychwanegol ar eiddo ac mae disgwyl y bydd y penderfyniad yn arwain at gynnydd mewn incwm treth cyngor o fis Ebrill 2018 ymlaen .

2.3 Er nad yw'r Cyngor eto wedi penderfynu beth i'w wneud gydag unrhyw adnodd ychwanegol fydd y Cyngor yn ei gasglu , awgrymir mai un opsiwn ar gyfer ariannu swydd o'r fath fyddai clustnodi'r swm angenrheidiol fel galwad cyntaf ar yr adnodd hwnnw.

**Cost Swyddog Strategol Tai Graddfa (36-39)**

**Cyfanswm gyda chostau £45,646**

Cytundeb 3 blynedd yn y lle cyntaf gyda phosibilrwydd i ymestyn yn dilyn adolygiad.

**3. Risgiau ac Ystyriaethau eraill.**

3.1 Pe na ellir canfod adnodd i estyn cymorth gyda'r gwaith yna mae perygl y byddwn yn

- colli cyfleoedd euraidd i gynyddu cyflenwad
- gorfod gwrthod neu ddychwelyd arian cyfalaf yn ôl i Lywodraeth Cymru
- wynebu cyrhaeddiad llawer is o gymharu ag awdurdodau eraill sydd yn buddsoddi

3.2 Mae peryglon bod y rhaglen wariant presennol yn or-ddibynnol ar un swyddog gan ein gadael yn fregus iawn petai newid oherwydd diffyg dilyniant ac arbenigedd.

3.3 Golyga hefyd y byddwn yn debygol o golli cyfleoedd i addasu ac ymateb i newidiadau o fewn y Wladwriaeth Les fyddai yn ei dro yn arwain at gostau ychwanegol mewn meysydd eraill.

3.4 Mae'r her o sicrhau cyflenwad o dai o ansawdd yn allweddol o ran adnabod eiddo i unigolion bregus a difreintiedig o fewn cymdeithas. Os na fydd darpariaeth addas bydd pobl hefo problemau iechyd, pobl hŷn , pobl anabl, teuluoedd hefo plant, yn fwy agored i niwed a chamwahaniaethu a bydd hefyd yn debygol o effeithio'r gwasanaethau eraill.

---

**Amserlen berthnasol** :

Gellid symud i sefydlu'r strwythur staffio a'r broses recriwtio yn syth ar ôl derbyn cadarnhad.

---

**Ymgynghoriadau a Gwblhawyd:**

**Y Swyddog Monitro:**

Wrth fabwysiadu premiwm treth cyngor fe nodwyd bwriad i ddefnyddio canran o'r arian a dderbyniwyd at ddarparu tai o fewn y cymunedau. Mae'r adroddiad a'r argymhelliad yn gydnaws a hyn.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Disgwylir cynnydd sylweddol yn y Grant Tai Cymdeithasol fydd ar gael dros y tair blynedd nesaf (2017-20) a chyfleon gyda grantiau eraill fydd ar gael yn y maes Tai. Byddai cymeradwyo'r penderfyniad a geisir yma'n galluogi'r gwasanaeth i fanteisio yn llawn ar arian grant gellid denu a gwario, er budd mwy o drigolion difreintiedig yng Ngwynedd. Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau ariannol sy'n yr adroddiad, a bod yr awdur wedi ymgynghori'n briodol cyn awgrymu'r ffynhonnell ariannu, felly rwy'n cefnogi'r argymhelliad.

---

# Eitem 8

**ADRODDIAD I'R CABINET**
21 Tachwedd 2017

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2017/18 –
Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2017)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

**1. Y penderfyniad a geisir**

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2017) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

- Gyda chytundeb y Pennaeth Adran Amgylchedd, trosglwyddo (£282k) o'r Adran Amgylchedd i'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

- Gyda chytundeb y Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol trosglwyddo (£54k) o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

- Cynaeafu (£200k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, (£800k) o danwariant Gostynigiad Treth y Cyngor, (£406k) arbedion a wireddwyd ymlaen llaw, (£444k) tanwariant un-tro ar fidiau a (£697k) o ganlyniad i amgylchiadau ffafriol ar gyllidebau eraill y Cyngor, a'i drosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

**2. Cyflwyniad / Cefndir**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 18 Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl.

Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2017/18, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

**2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Gorwariant gan wasanaethau Darparu ynghyd â methiant i wireddu rhai arbedion yn bennaf gyfrifol am orwariant yr Adran. Rydym yn dal i aros am adroddiad gan y Pennaeth Adran a'r Aelod Cabinet yn ail-becynnu eu cynlluniau arbedion er mwyn eu cyflawni.

**2.2 Adran Plant a Theuluoedd**

Y tuedd o orwariant a welwyd yn y chwarter cyntaf yn parhau, gyda gorwariant ar wasanaethau lleoliadau a gweithredol.

**2.3 Adran Addysg**

Pwysau ychwanegol ar gludiant tacsis ysgolion, ac hefyd arlwyaeth a glanhau, yn gyfrifol am y gorwariant. Yn yr adolygiad chwarter cyntaf gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Addysg sicrhau fod y Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Amgylchedd yn ymchwilio i'r cynnydd yn y gwariant ar gludiant tacsis ysgolion ac yn gweithredu i reoli neu adrodd ar y sefyllfa. Gan fod y sefyllfa ariannol cysylltiedig bellach wedi gwaethygu, gofynnir felly i'r Aelod Cabinet adrodd ar y mater yn uniongyrchol i'r Cabinet.

**2.4 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Problemau gorwariant yr Adran wedi dwysau yn sylweddol yn ystod y chwarter, sydd yn gyfuniad o ddiffyg incwm, llithriad arbedion, a chostau cynyddol ymdrin a chludo deunyddiau ailgylchu. Mae'r Pennaeth Adran a'r Aelod Cabinet yn rhoi sylw i faterion sy'n cyfrannu at y sefyllfa ariannol.

**2.5 Adran Amgylchedd**

Gwasanaethau'r Adran yn tanwario o ganlyniad i arbedion o ail-strwythuro arfaethedig, ynghyd â rhagori ar dargedau incwm. Mae'r sefyllfa ffafriol eleni yn galluogi'r Adran i drosglwyddo tanwariant sydd uwchlaw £100k i'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

**2.6 Corfforaethol**

Bu tanwariant o gasglu mwy o Dreth Cyngor, llai o hawlio Gostyngiadau Treth Cyngor, arbedion a wireddwyd ymlaen llaw, bidiau na fydd yn cael eu defnyddio eleni, a thanwariant o ganlyniad i amgylchiadau ffafriol diweddar. Argymhellir ei drosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

**3. Cyffredinol**

Ar y cyfan, mae'r adolygiad ail chwarter o'r cyllidebau yn adlewyrchu rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor, ond argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant i'r Adran Addysg, Oedolion Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, a Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2018.

**4. Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar 13 Chwefror 2018 ar yr adolygiad trydydd chwarter.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol

## Cyllideb Refeniw 2017/18 - Crynhoad o'r amcan sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Ail Chwarter | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Chwarter Cyntaf £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,783** | **216** | **0** | **216** | *147* |
| **Plant a Theuluoedd** | **13,961** | **396** | **0** | **396** | *290* |
| **Addysg** | **89,927** | **264** | **0** | **264** | *358* |
| **Economi a Chymuned** | **11,389** | **(33)** | **0** | **(33)** | *(26)* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **23,362** | **600** | **0** | **600** | *149* |
| **Amgylchedd** | **8,015** | **(382)** | **282** | **(100)** | *(134)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **1,108** | **35** | **0** | **35** | *85* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **667** | **(71)** | **0** | **(71)** | *0* |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | **850** | **(68)** | **0** | **(68)** | *(40)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **357** | **(154)** | **54** | **(100)** | *(20)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn Unig)* | * | **(2,912)** | **2,547** | **(365)** | *(380)* |
| **Cyfansymiau (net)** | **200,419** | **(2,109)** | **2,883** | **774** | *429* |

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 10,461 | 10,508 | 47 | 0 | 47 | (316) |
| Gofal Cartref | 6,223 | 6,017 | (206) | 0 | (206) | 126 |
| Eraill | 2,850 | 2,596 | (254) | 0 | (254) | (147) |
| | 19,534 | 19,121 | (413) | 0 | (413) | (337) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 492 | 478 | (14) | 0 | (14) | (20) |
| Gofal Cartref | 998 | 1,067 | 69 | 0 | 69 | 90 |
| Eraill | 709 | 573 | (136) | 0 | (136) | (100) |
| | 2,199 | 2,118 | (81) | 0 | (81) | (30) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 14,950 | 14,731 | (219) | 0 | (219) | (228) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,492 | 1,712 | 220 | 0 | 220 | 236 |
| Eraill | 1,983 | 1,888 | (95) | 0 | (95) | (97) |
| | 3,475 | 3,600 | 125 | 0 | 125 | 139 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | | | | | | |
| Rheolaeth | 418 | 413 | (5) | 0 | (5) | 0 |
| Tîm Pobl Hyn ac Anabledd Corff | 2,378 | 2,408 | 30 | 0 | 30 | 0 |
| | 2,796 | 2,821 | 25 | 0 | 25 | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **42,954** | **42,391** | **(563)** | **0** | **(563)** | **(456)** |

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 9 | 193 | 184 | 0 | 184 | 75 |
| Gofal Dydd | 5 | 65 | 60 | 0 | 60 | 0 |
| Gofal Cymunedol | 2 | 333 | 331 | 0 | 331 | 200 |
| Eraill | 0 | (66) | (66) | 0 | (66) | (10) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **16** | **525** | **509** | **0** | **509** | **265** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 4,393 | 4,442 | 49 | 0 | 49 | 38 |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,420 | 3,641 | 221 | 0 | 221 | 300 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **7,813** | **8,083** | **270** | **0** | **270** | **338** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,783** | **50,999** | **216** | **0** | **216** | **147** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - nifer o ffactorau yn gyfrifol am leihad yn y costau, sydd yn cynnwys lleihad yn y pecynnau gyda'r angen am ddau ofalydd ar ofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - tanwariant ar daliadau uniongyrchol a llety cefnogol yn cynorthwyo i leihau effaith y gorwariant sydd ar ofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - rhagwelir tanwariant ar breswyl a nyrsio, llety cefnogol a gwasanaethau dydd, ond cynlluniau cefnogol yn gorwario yn rhannol o ganlyniad i lithriad ar gynlluniau arbedion.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - y tuedd yn parhau gyda gorwariant o £125k ar preswyl a nyrsio, ond tanwariant ar swyddi gwag a derbyniad grant ar wasanaethau eraill yn lleddfu ychydig ar y sefyllfa.

**Gwasanaethau Darparu** - parhad yn y tueddiad yn y gorwariant ers 2016/17 yn deillio o gostau cysylltiedig â materion staffio, gyda chostau teithio hefyd yn gyfrifol am werth £108k o'r gorwariant ar ofal cymunedol.

**Gwasanaethau Eraill - Canolog Adrannol** - mae'r rhagolygon uchod yn adlewyrchu'r risg na fydd modd gwireddu gwerth £436k o arbedion, gyda nifer o gynlluniau arbedion wedi llithro o 2016/17. Rydym yn dal i aros am adroddiad gan y Pennaeth Adran a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ail-becynnu eu cynlluniau arbedion er mwyn eu cyflawni. Swyddi gwag, derbyniad grant ac incwm uwch yn lleihau y gorwariant a adroddir i £221k.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 511 | 490 | (21) | 0 | (21) | (10) |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,995 | 2,133 | 138 | 0 | 138 | 100 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 1,947 | 2,160 | 213 | 0 | 213 | 20 |
| Maethu Drwy Asiant | 928 | 1,042 | 114 | 0 | 114 | 205 |
| Maethu Mewnol | 1,675 | 1,706 | 31 | 0 | 31 | 75 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,573 | 1,616 | 43 | 0 | 43 | 30 |
| | 6,123 | 6,524 | 401 | 0 | 401 | 330 |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 913 | 879 | (34) | 0 | (34) | (75) |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,565 | 1,608 | 43 | 0 | 43 | 5 |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 234 | 203 | (31) | 0 | (31) | (25) |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 126 | 72 | (54) | 0 | (54) | (35) |
| Gwasanaethau Eraill | 2,494 | 2,448 | (46) | 0 | (46) | 0 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **13,961** | **14,357** | **396** | **0** | **396** | **290** |

## Plant a Theuluoedd

**Gwasanaethau Gweithredol** - rhagwelir gorwariant o £138k, er fod yr Adran wedi derbyn cyllideb ychwanegol yn 2017/18. Y gorwariant yn parhau o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond sydd ddim mewn lleoliadau maethu, ynghyd â gorwariant ar gostau staff.

**Gwasanaethau Lleoliadau** - y gorwariant ar leoliadau all-sirol yn £213k a maethu drwy asiant £114k. Un achos newydd ac un pecyn wedi dwyshau yn gyfrifol am y cynnydd yn yr all-sirol, tra fod pump achos maethu mewnol newydd ar ddechrau'r flwyddyn, ond tri wedi dod i ben bellach. Mae pwysau o ran nifer yr achosion, a methiant i gyflawni arbedion wedi arwain at y gorwariant.

**Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar** - amcan y bydd tanwariant o (£54k) yn dilyn derbyniad grant newydd gofal plant.

Gofynnir i'r Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Phennaeth yr Adran sicrhau camau pendant i geisio lleihau'r gorwariant gan sicrhau fod y gyllideb dan reolaeth erbyn diwedd y flwyddyn.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 73,208 | 73,208 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 4,246 | 4,510 | 264 | 0 | 264 | 200 |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | 358 | 364 | 6 | 0 | 6 | 0 |
| All Sirol | 953 | 953 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arlwyaeth a Glanhau | 294 | 440 | 146 | 0 | 146 | 95 |
| Addysg Meithrin | 600 | 596 | (4) | 0 | (4) | 0 |
| Grant Grant Gwella Addysg | 564 | 524 | (40) | 0 | (40) | (40) |
| Rheolaeth | 1,569 | 1,503 | (66) | 0 | (66) | (41) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 3,053 | 3,067 | 14 | 0 | 14 | 190 |
| Addysg Bellach | 24 | 17 | (7) | 0 | (7) | 0 |
| Cyfraniad Addysg i Gyd-Bwyllgorau | 1,202 | 1,168 | (34) | 0 | (34) | (23) |
| Eraill | 3,856 | 3,841 | (15) | 0 | (15) | (23) |
| **Cyfanswm Addysg** | **89,927** | **90,191** | **264** | **0** | **264** | **358** |

## Addysg

Y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu lleihad yn y gorwariant i £264k, o'i gymharu â'r £358k adroddwyd yn y chwarter cyntaf. Y prif feysydd sydd yn cyfrannu at y sefyllfa yw:

**Cludiant** - y tueddiad gorwariant yn parhau ers yr adolygiad chwarter cyntaf, a bellach wedi cynnyddu i £264k, gyda diffyg o £50k ar werthiant tocynau cludiant ôl-16, tanwariant o (£17k) ar fysus ysgol, ond gorwariant o £230k ar gludiant tacsis ysgolion, yn dilyn cynnydd yn y ceisiadau ers sefydlu'r gyllideb. Yn yr adolygiad chwarter cyntaf gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Addysg sicrhau fod y Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Amgylchedd yn ymchwilio i'r cynnydd yn y gwariant ar gludiant tacsis ysgolion ac yn gweithredu i reoli neu adrodd ar y sefyllfa. Gan fod y sefyllfa ariannol cysylltiedig bellach wedi gwaethygu, gofynnir felly i'r Aelod Cabinet adrodd ar y mater yn uniongyrchol i'r Cabinet.

**Arlwyaeth a Glanhau** - rhagwelir gorwariant o £146k, yn bennaf ar gostau yn deillio o salwch a materion staffio, ynghyd â cholled grant ac oedi cyn cyflawni arbedion y cynllun Brecwast am Ddim.

**Rheolaeth** - tanwariant o (£66k) o ganlyniad i drosiant staff.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 875 | 875 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dysgu Cymunedol | 3,458 | 3,418 | (40) | 0 | (40) | (3) |
| Twristiaeth a Threftadaeth | 1,434 | 1,446 | 12 | 0 | 12 | 5 |
| Economi a Chymuned | 2,117 | 2,113 | (4) | 0 | (4) | 0 |
| Cymunedau'n Iach | 3,505 | 3,504 | (1) | 0 | (1) | (28) |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **11,389** | **11,356** | **(33)** | **0** | **(33)** | **(26)** |



## Economi a Chymuned

Y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£33k) erbyn diwedd y flwyddyn gan yr Adran Economi. O fewn y sefyllfa yma rhagwelir y bydd rhai gwasanaethau yn gorwario, gan gynnwys Morwrol, Orielau ac Amgueddfeydd, ond yn cael ei fantoli gan danwariant mewn meysydd eraill megis Parciau Gwledig, Cefnogi Busnes a Neuaddau.

**Dysgu Cymunedol** - amcenir tanwariant o (£40k) sydd yn gyfuniad o danwariant o (£20k) ar y Gwasanaeth Ieuenctid, gan fod cwtogiad yn y ddarpariaeth clybiau ieuenctid, a (£20k) ar Adfywio Cymunedol o ganlyniad i drosiant staff.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 9,938 | 10,213 | 275 | 0 | 275 | 71 |
| Gwasanaethau Peirianneg | 401 | 490 | 89 | 0 | 89 | 13 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | | | | | | |
| Gwastraff | 9,324 | 9,537 | 213 | 0 | 213 | 48 |
| Eraill | 3,713 | 3,762 | 49 | 0 | 49 | 17 |
| Unedau Darparu Bwrdeistrefol | (14) | (40) | (26) | 0 | (26) | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)** | **23,362** | **23,962** | **600** | **0** | **600** | **149** |



## Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - y rhagolygon yn awgrymu y bydd incwm contractau allanol yn is na'r targed, ynghyd â llithriad ar arbedion Priffyrdd a Goleuo.

**Gwasanaethau Peirianneg** - cyfuniad o fethiant i wireddu cynlluniau arbedion, materion staffio a cholled cytundeb allanol yn gyfrifol am y gorwariant o £89k a ragwelir.

**Gwastraff** - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, gan gynnwys diffyg incwm, costau cynyddol ymdrin a chludo deunyddiau ailgylchu.

Yn yr adolygiad chwarter cyntaf adroddwyd fod disgwyliad i'r Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Pennaeth Adran gymryd camau pendant yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn y gyllideb. Gan weld fod y sefyllfa ariannol wedi gwaethygu yn sylweddol erbyn hyn, gofynnir felly i'r Aelod Cabinet adrodd ar y mater yn uniongyrchol i'r Cabinet.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 539 | 526 | (13) | 0 | (13) | 0 |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 372 | 351 | (21) | 0 | (21) | 0 |
| Eraill | (39) | (54) | (15) | 0 | (15) | 0 |
| | 333 | 297 | (36) | 0 | (36) | 0 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Cynllunio Ymlaen | 2,439 | 2,439 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Diogelwch y Ffyrdd | 255 | 222 | (33) | 0 | (33) | 0 |
| Traffig a Threfniadau Statudol | 567 | 504 | (63) | 0 | (63) | 0 |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,429) | (1,428) | 1 | 0 | 1 | (134) |
| Cludiant Integredig | 2,069 | 1,934 | (135) | 0 | (135) | 0 |
| Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | 175 | 131 | (44) | 0 | (44) | 0 |
| | 4,076 | 3,802 | (274) | 0 | (274) | (134) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 999 | 1,020 | 21 | 0 | 21 | 0 |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 288 | 288 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,745 | 1,675 | (70) | 0 | (70) | 0 |
| Arlwyo, Glanhau a Gofalu | 3 | 2 | (1) | 0 | (1) | 0 |
| Eiddo | 32 | 23 | (9) | 0 | (9) | 0 |
| Cynaeafu Cyllideb | | | | 282 | 282 | 0 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **8,015** | **7,633** | **(382)** | **282** | **(100)** | **(134)** |

## Amgylchedd

| |
|---|
| **Gofal Stryd a Thrafnidiaeth** - rhagwelir tanwariant un-tro o (£274k) sydd yn gyfuniad o nifer o swyddi gwag fel rhan o ail-strwythuro arfaethedig yn ogystal â rhagori ar incwm.<br><br>**Gwarchod y Cyhoedd** - incwm uwchlaw'r gyllideb yn bennaf gyfrifol am y tanwariant o (£70k) a ragwelir, gyda amrywiol danwariant ar gostau rhedeg y gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am y sefyllfa ariannol ffafriol.<br><br>O ganlyniad i'r rhagolygon addawol un-tro eleni gan yr Adran, awgrymir y dylid rhyddhau (£282k) o'r tanwariant sydd uwchlaw (£100k) i bwrpas y Cyngor. |
| **Argymhellir** gyda chytundeb y Pennaeth Adran Amgylchedd drosglwyddo (£282k) o'r Adran Amgylchedd i'r Gronfa Strategaeth Ariannol. |

| **Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (66) | (106) | (40) | 0 | (40) | 10 |
| Gwasanaeth Adeiladu | 39 | 109 | 70 | 0 | 70 | 73 |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 935 | 935 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolaeth Adeiladu | 200 | 205 | 5 | 0 | 5 | 2 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **1,108** | **1,143** | **35** | **0** | **35** | **85** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£40k), yn dilyn llwyddiant yr Adran i ddenu incwm ychwanegol drwy gyfuniad o waith mewnol ac allanol.

**Gwasanaeth Adeiladu** - y gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith gan sefydliadau allanol i ddenu incwm, ond yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol rhagwelir diffyg incwm o £70k erbyn diwedd y flwyddyn, sydd £30k yn well na'r cyfnod yma y llynedd.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 667 | 596 | (71) | 0 | (71) | 0 |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 850 | 782 | (68) | 0 | (68) | (40) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 357 | 203 | (154) | 54 | (100) | (20) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **1,874** | **1,581** | **(293)** | **54** | **(239)** | **(60)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - amcan tanwariant o (£71k) gyda (£52k) ohono ar dderbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol, a (£9k) o arbedion a wireddwyd ymlaen llaw a (£9k) yn y maes Cynllunio Argyfwng.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - tanwariant un-tro ar swyddi yn parhau gan yr Adran, ynghyd â denu incwm uwchlaw'r gyllideb.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - cynnydd yn y rhagolygon tanwariant i (£154k), sydd yn gyfuniad o arbedion staffio un-tro o ganlyniad i drosiant staff a llwyddiant yr Adran i ddenu incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb mewn nifer o feysydd. Gan fod lefel y tanwariant a ragwelir uwchlaw (£100k), awgrymir y dylid cynaeafu (£54k) o'r sefyllfa ffafriol a ragwelir i gynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau fel Cyngor.

**Argymhellir,** gyda chytundeb y Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, trosglwyddo'r tanwariant o (£54k) gan Cefnogaeth Gorfforaethol i'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

| Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth y Cyngor | * | * | (200) | 200 | 0 | 0 |
| Gostyngiad Treth y Cyngor | * | * | (800) | 800 | 0 | (380) |
| Derbyniad Llog Net | * | * | (7) | | (7) | 0 |
| Arbedion a Wireddwyd Ymlaen Llaw | * | * | (406) | 406 | 0 | 0 |
| Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau | * | * | (444) | 444 | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (1,055) | 697 | (358) | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(2,912)** | **2,547** | **(365)** | **(380)** |

## Corfforaethol

Rhagwelir sefyllfa ffafriol o gasgliad uwch o (£200k) ar Dreth y Cyngor o ganlyniad i leihad yn y nifer o eithriadau i ostwng Treth y Cyngor gan gynnwys disgowntiau sengl. Tanwariant o (£800k) ar gynllun Gostyngiad Treth y Cyngor, gyda'r lleihad mewn nifer ceisiadau yn dueddiad a welir yn bresennol gan Gynghorau eraill gogledd Cymru. Arbedion amrywiol a wireddwyd ymlaen llaw gan Adrannau yn (£406k), a gwerth (£444k) o fidiau na fydd yn cael eu defnyddio eleni, yn bennaf (£317k) gan Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cael eu rhyddhau.

Y rhagamcanion diweddaraf yn awgrymu fod modd rhyddhau (£697k) o ganlyniad i newid deddfwriaeth a grantiau ar ôl gosod y gyllideb, gan gynnwys, cynnydd yn y cap polisi codi tâl yn y maes gofal oedolion (£198k), derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru yn golgu fod modd rhyddhau cyllideb demograffi oedolion (£300k) a chyllideb ar gyfer achosion cyfreithiol pridiannau tir (£50k).

**Argymhellir** cynaeafu (£200k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, (£800k) o danwariant Gostynigiad Treth y Cyngor, (£406k) arbedion a wireddwyd ymlaen llaw, (£444k) tanwariant un-tro ar fidiau a (£697k) o ganlyniad i amgylchiadau ffafriol ar gyllidebau eraill y Cyngor, gan eu trosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
21 Tachwedd 2017

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2017/18 –
Adolygiad Ail Chwarter (sefyllfa 30 Medi 2017)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2017) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £1,121,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- (£389,000) lleihad mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £78,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £118,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- (£663,000) lleihad mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
- (£48,000) lleihad mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o drefn monitro cyllideb 2017/18. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £46.942m am y 3 blynedd 2017/18 – 2019/20.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £0.217m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2017/18 i 2018/19
- Atodiad C: Gwariant 6 mis cyntaf 2017/18.

## 2. Prif Gasgliadau:

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £33.4m yn 2017/18, gyda £5.4m ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

## 3. RHAGLEN GYFALAF 2017/18 i 2019/20

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | CYFANSWM £'000 | £'000 |
| Addysg | 13,029 | 399 | - | 13,428 | (84) |
| Amgylchedd | 7,215 | 3,187 | - | 10,402 | 103 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 143 | 9 | - | 152 | 21 |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 547 | 709 | - | 1,256 | - |
| Economi a Chymuned | 1,061 | 10 | 200 | 1,271 | 379 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 3,063 | 3,607 | - | 6,670 | 9 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 947 | - | - | 947 | 449 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 157 | - | - | 157 | 88 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6,957 | 2,460 | 2,406 | 11,823 | (748) |
| Ymgynghoriaeth | 27 | 17 | - | 44 | - |
| Corfforaethol | 222 | 570 | - | 792 | - |
| **CYFANSWM** | **33,368** | **10,968** | **2,606** | **46,942** | **217** |

## 4. NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

Mae cynnydd o £0.217m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad chwarter cyntaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | CYFANSWM £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,675 | 6,399 | - | 13,074 | - |
| Benthyca Arall | 8,526 | 415 | 992 | 9,933 | 1,121 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 5,441 | 750 | 200 | 6,391 | (389) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,206 | 196 | - | 1,402 | 78 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,285 | - | - | 2,285 | 118 |
| Cronfa Cyfalaf | 1,116 | 1,290 | - | 2,406 | (48) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 8,119 | 1,918 | 1,414 | 11,451 | (663) |
| **CYFANSWM** | **33,368** | **10,968** | **2,606** | **46,942** | **217** |

Noder: nid yw'r cynnydd yn y lefel 'benthyca arall' yn creu ymrwymiad ychwanegol ar gyllidebau refeniw'r Cyngor. Mae'r gefnogaeth ar gyfer y benthyca yma eisoes wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad A am fwy o fanylion).

## 5. ARGYMHELLION

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2017/18 i 2019/20, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 4 uchod).**

## 6. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2017/18 – 2019/20.

## 7. Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 8. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiadau A, B a C

---------------------------

**PRIF NEWIDIADAU FESUL FFYNHONNELL ARIANNU:**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu yn ystod y chwarter diwethaf:

| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **Benthyca Arall** | | |
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – cynnydd mewn benthyca, addasiad technegol i'r ffynhonnell ariannu er mwyn gostwng y lefel o grant a chynyddu'r lefel benthyciad gyda chefnogaeth ar gais blynyddol gan Lywodraeth Cymru (gweler hefyd Grantiau a Chyfraniadau isod). Ni fydd y newid technegol yma mewn ariannu yn cael unrhyw effaith ar y cynlluniau, a bydd Lywodraeth Cymru yn dal i ariannu 50% o'r gost. | 1,241 | |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – gostyngiad grant, gweler Benthyca Arall uchod am eglurhad. | (1,241) | |
| • Datblygiad Llys Cadfan (Adran Oedolion Iechyd a Llesiant) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau i gartref Llys Cadfan i dderbyn gwelyau dementia ac arbenigol. | 400 | |
| • Adfywio Tref a Glannau Caernarfon (Adran Economi a Chymuned) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | 336 | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Nifer o fân gynlluniau. | 78 | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Nifer o fân gynlluniau. | 118 | |
| **Cronfeydd Cyfalaf** | | |
| • Nifer o fân gynlluniau. | (48) | |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Cynllun Adnewyddu Cerbydau Ailgylchu (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - cafwyd prisiau gwell na'r disgwyl ar bryniant 5 cerbyd yn 17/18, a gwelwyd 3 cerbyd yn cael eu hadnewyddu'r llynedd yn hytrach na fel y rhagluniwyd yn 18/19. | (229) | (565) |

---------------------------

## Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau:

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi ei hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau Grantiau Tai (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Dai) | (758) | 758 |
| Cynlluniau Adnewyddu Cyfrifiaduron (Adran Gyllid a Thechnoleg Gwybodaeth) | (360) | 360 |
| Ail wynebu meysydd parcio (Adran Amgylchedd) | (219) | 219 |
| Ysgol Bro Llifon (Adran Addysg) | (122) | 122 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

----------------------------

ATODIAD C

**Gwariant Cyfalaf 6 Mis Cyntaf 2017/18**

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Medi) 2017/18 £'000 | GWIR WARIANT 6 MIS HYD AT 30/09/2017 £'000 |
|---|---|---|
| Addysg | 13,029 | 4,335 |
| Amgylchedd | 7,215 | 2,059 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 143 | 6 |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 547 | 326 |
| Economi a Chymuned | 1,061 | 317 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 3,063 | 616 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 947 | 388 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 157 | 33 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6,957 | 1,592 |
| Ymgynghoriaeth | 27 | - |
| Corfforaethol | 222 | - |
| **CYFANSWM** | 33,368 | 9,672 |

**Noder:**
Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (29%) yn gyfatebol is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (36%).